# LLYGAD Y DYDD

Papur Bro Dolgellau a'r Cylch

Rhydd i bawb ei farn, ac i bob barn ei llafar

Rhifyn 19 (digidol) | Ebrill 2020 | £ AR-LEIN AM DDIM







## Arwyddion Diolch a Gobaith

Diolchwn i Llinos Rowlands, Linda Morgan, Beryl Davies, Arfon Hughes, Elain Williams, a Llinos Mair Williams am y lluniau.

















9772632697002



Walio a chanu .....5
Ein Milltir Sgwâr...7
Canmlwyddiant banc ..11
Rona Lewis ..............16
Profi pridd ..... 18
Iechyd ...........19

MANYLION CYSWLLT:

**golygydd@llygadydydd.cymru**
**01650 531237**

www.llygadydydd.cymru

GOLYGYDDION A SWYDDOGION:
*Cadeirydd Cymdeithas y Dydd:*
Arfon Hughes
*Ysgrifennydd:* Buddug Hughes
*Trysorydd:* Elfed ap Gomer

*Golygydd y Rhifyn*:
*Buddug Hughes*

*Prawfddarllenydd*:
Buddug Hughes

*Cysodydd:* Karen Glyn Goswell

Ariennir
yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

Dyddiad ar gyfer derbyn deunydd i'r Rhifyn nesaf:

*Mai 11, 5yh*

Gwerthir y papur gan y canlynol:

- Siop y Cymro, Eurospar, Cwt Gwyn
- Garej Mallwyd
- Awen Meirion

***Lluniau: Rhaid i ffotograffau fod o ansawdd uchel (jpg >=300 dpi), a'u derbyn drwy e-bost. Rhaid i chi gael caniatâd rhieni i enwi plant sy'n ymddangos mewn lluniau.***
***Rhaid cael caniatâd y ffotograffydd!***

Dylid rhoi enw a chyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost ar bob cyfraniad at gynnwys Llygad y Dydd. Cedwir yr hawl i olygu cyfraniadau. Mae croeso i Newyddion, Teyrngedau, Gohebiaeth, Cyfarchion, dyddiadau i'r Dyddiadur, Cyhoeddiadau a Hysbysebion.

Manylion Tanysgrifio ar ein gwefan neu cysylltwch!

TELERAU HYSBYSEBU

| Maint | Du a Gwyn | Lliw |
|---|---|---|
| 1/16 tud | £10 | £15 |
| 1/8 tud | £15 | £25 |
| 1/4 tud | £30 | £40 |
| 1/2 tud | £60 | £80 |

Hysbysebu am flwyddyn: 2 fis am ddim
Cyfarchion: £5

E-bost ar gyfer hysbysebion:
hysbyseb@llygadydydd.cymru

Cymdeithas y Dydd sydd wedi cynhyrchu'r papur hwn ac sy'n cymryd cyfrifoldeb amdano. Criw o wirfoddolwyr o ddalgylch y papur sydd wedi ffurfio Cymdeithas y Dydd.

**Croesewir aelodau newydd!**

Nid yw'r golygyddion o angenrheidrwyrdd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y rhifyn.

# Gair o'r Gadair

*Yn y golofn hon fis diwethaf roeddwn yn ysgrifennu'n besimistaidd iawn am sefyllfa'r pandemig ar yr ardal hon, ond dw i wedi codi fy nghalon ers hynny. Dw i wedi gweld daioni wrth i bobl yr ardal, yn unigolion a chymdogion fod y tu hwnt o garedig ac mae rhai wedi ffurfio grwpiau cymorth. Mae nifer o fusnesau lleol hefyd yn cynnig gwasanaethau i gludo pob math o nwyddau i stepen y drws.*

*Fel Pwyllgor y papur hwn roeddem yn argyhoeddedig y dylai'r papur barhau er gwaethaf y sefyllfa, a hynny ar ffurf ddigidol. Rydym yn ymwybodol na fydd pawb yn gallu gweld heb sôn am gael cyfle i dafoli'r tudalennau, ond gobeithio y bydd ein darllenwyr arferol yn parhau yn driw i ni yn dilyn y cyfnod yma. Oes posib i rai ohonoch sy'n derbyn y rhifyn hwn rannu'r neges ble i gael hyd i'r rhifyn gyda'r rhai sydd heb gyfrifiadur personol?*

*Yn y rhifyn 'gobeithiol' hwn mae ystod o erthyglau a gwybodaeth ddiddorol dw i'n siŵr fydd at ddant pawb. Mae gennym gyfweliadau gyda thrigolion yr ardal sydd mewn gwahanol rannau o'r byd ynghyd ag enwogion lleol ym maes chwaraeon a cherddoriaeth.*

*Mae newyddion hefyd am ddau arweinydd sydd wedi bod yn ddylanwadol yn lleol sef Rona Lewis o'r Coleg yn ymddeol a Dafydd Elis-Thomas AC am roi gorau i'n cynrychioli yn y Senedd y flwyddyn nesaf.*

*Diolch i Tecwyn Owen am ei gyfraniad yn dilyn fy nghais ar sut y medrwn fel cymuned ddefnyddio'r Gymraeg wrth gadw i ffwrdd oddi wrth eraill. Er bod yna wobr am syniad newydd i ddefnyddio'r Iaith ac i ni ei rannu gyda phawb yn rhifyn hwn, dw i ddim yn sicr os ydyw yn newydd! Be ydach chi'n feddwl? Daliwch ati i feddwl am syniadau!*

*Mae'r tywydd anarferol o braf dros y cyfnod diweddar wedi bod yn gyfle arbennig i fynd allan ac edrych ar natur yn deffro o drwmgwsg y gaeaf ac mae erthyglau yn nodi pa mor lwcus yr ydym yn byw mewn ardal mor braf.*

*Digon i ddiddanu pawb yn y cyfnod yma yn y rhifyn hwn! Felly daliwch ati bawb i ynysu am gyfnod pellach er mwyn cadw'n gilydd yn saff. Mi ddown ni drwyddi.*

*Arfon*



# Proc i'r Llygad

Y dyddiau yma mae'r meddwl ymhobman. Pob un ohonom yn poeni am y dyfodol ac yn gresynu at barhad yr aflwydd sydd yn rheoli ar hyn o bryd. Rydym wedi cymryd yn aml ein bod yn gryf ac yn trechu, ac nad oes dim yn feistr arnom. Mae wedi newid arnom yntydi? Rhaid ufuddhau a phwyllo a sylweddoli nad oes pwrpas i ni ddweud sut y dylai fod oherwydd nad gennym ni mae'r penderfyniad fel bodau dynol ond gallwn wneud un penderfyniad sef bodloni aros adref, derbyn a pheidio herio.

Wrth aros adref mae'r meddwl hefyd yn edau hir i'r gorffennol a daw geiriau i'r meddwl -

Atgofion - *"gemau ar edau ydynt a brofais ac a gesglais gynt".*

Wn i ddim pwy roddodd y geiriau wrth eu gilydd ond maent yn dweud llawer.

Plant wedi'r Ail Ryfel Byd yw rhai o bobol dros 70 oed heddiw sy'n cael ein gwarchod, drwy garedigrwydd, rhag mynd i ganol eraill y dyddiau yma. Cofiwn y Llyfrau Dogni ac mor wych yr oedd Mamau am wneud pydyn blasus o fawr ddim cynhwysion! Ambell i fabi angen mwy o laeth powdwr y National Dried Milk nag oedd ei ddogn yn caniatau a'i Dad yn cael y rhagor o dan gownter y Fferyllydd yn Nolgellau! Rhai ohonom yn cofio yr ofn pan darawyd llawer o blant Cymoedd De Cymru ag aflwydd y Frech Wen a ninnau fel plant ysgol yn cael ein brechu.Yr adeg honno roedd Sowth Wels yn andros o bell ond heddiw siwrnai a wneir mewn diwrnod ydi hi - nôl a blaen.

Edefyn arall yw'r angen am helpu i wneud bagiau ar gyfer y nyrsus i gario eu gwisgoedd adref i'w golchi ar gyfer y shifft nesaf. Pleser ydi gallu addasu defnydd cotwm sydd yng ngwaelod y coffor pren i wnio rhywfaint ohonynt ar gyfer Nyrsus Ysbytai'r Gogledd. Gwenu yr un pryd wrth feddwl am y bagiau a oedd gennym i gario ein dillad ymarfer corff adref o'r ysgol ac a oedd yn wahanol i'r bagiau arbennig sydd gan blant heddiw i gario'i dillad addas i chwaraeon ond sydd yn gwneud yn iawn yn yr argyfwng ar y pryd.

Roedd rhywun ar y Gweplyfr eto heddiw yn ein hatgoffa am drychineb y Pla Du a'r arbed ar lawer yn Eyam drwy i un person hirben ddylanwadu arnynt i ynysu eu hunain. Gwers sydd angen ei hailadrodd heddiw i lawer sy'n mynnu parhau i drafeilio ymhell o'u prif gartrefi.

*Mwclis*

## Profiad Ioan yn Fietnam

**Fe gofiwch i ni gynnwys sgwrs gyda Ioan Morgan sydd ar hyn o bryd yn dysgu yn Fietnam yn ein rhifyn diwethaf o 'Llygad y Dydd'.** Cafodd Mona Hughes gyfle i gael sgwrs arall gyda Ioan, a holi sut mae bywyd yno erbyn hyn.

Dywedodd Ioan, 'Mae pethau wedi tynhau ers ein sgwrs ddiwethaf, a mesuriadau hunan ynysu yn eu lle ers Mawrth 31$^{ain}$. Rydan yn cael mynd i'r siop ac yn y blaen, felly nid yw'r mesuriadau yn rhy llym.'

'Rydyn ni yn yr ysgol wedi newid ein trefniadau yn sylweddol, gydag amserlen llawer mwy addas ar gyfer e-ddysgu. Erbyn hyn mae'r disgyblion a'r rhieni yn llawer hapusach

'Ar y cyfan, mae Fietnam yn parhau i reoli atal gwasgaru'r firws yn dda iawn gyda dim ond 268 achos yma. Heddiw doedd yna ddim un achos newydd sydd yn bositif iawn.'

'Cafodd un llanc ifanc, yntau ei hun o Fietnam, ei arestio am awgrymu bod y ffigyrau yn ffug ac yn anghywir, gan ddweud bod yna rhywun wedi marw o'r firws yn ei bentref . Hyd yn hyn, does neb wedi marw o'r firws yn Fietnam.'

'Mae'r mesuriadau "lockdown" wedi cael eu hymestyn am wythnos, felly dwi'n gobeithio'n arw bydd llefydd yn dechrau ail agor yn raddol. Gobeithio pan ddown i gysylltiad nesaf, y bydd gennyf newyddion da i chi. Diolch Mona! Arhoswch yn ddiogel acw!'

## Llyfrgelloedd Gwynedd ar gael o adref



**Ydych chi'n gweld colled heb eich llyfrgell lleol? Wel, diolch i dechnoleg mae modd lawrlwytho** pob math o adnoddau gan Llyfrgelloedd Gwynedd ar-lein.

O ganlyniad i Covid-19, fe fu'n rhaid i lyfrgelloedd a mannau cyhoeddus gau. Ond, diolch i'r cynnig digidol sydd ar gael trwy Llyfrgelloedd Cymru, mae modd cael gafael ar bob math o adnoddau am ddim trwy unrhyw ddyfais sydd gennych wedi'i chysylltu gyda'r we - er enghraifft e-lyfrau, e-lyfrau llafar trwy Borrowbox, e-glychgronau ac e-gomics trwy 'RB digital' a gwefan hel achau 'ancestry'.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lyfrgelloedd: "Yn y cyfnod yma lle bo pawb adref am gyfnodau hir, mae hi'n bwysig i ni gyd ddiddanu ein hunain a chadw'n brysur. Mae adnoddau fel hyn am fod yn gysur mawr i nifer o bobl, yn enwedig gan ei fod ar gael yn rhad ac am ddim. Mae modd cael yr adnoddau hyn yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn addas i oedolion, plant a phobl ifanc. Dyma gyfle da i bawb gael adnoddau i'n cadw ni'n ddiwyd mewn cyfnod poenus."

Gallwch weld popeth sydd ar gael trwy ymweld a **www.gwynedd.llyw.cymru/catalogllyfrgell** ac yna dilynwch y cyfarwyddiadau perthnasol.

Cofiwch, fod angen bod yn aelod o'ch Llyfrgell yn gyntaf! Ond mae ymaelodi yn broses syml ar y wefan ac yna gallwch gael mynediad at yr holl adnoddau digidol.

## Rhys a sefyllfa'r Eidal

**Mae Dr. Rhys Welnitschuk yn parhau i fod yn yr Eidal ond yn obeithiol y caiff ddod yn ôl i Gymru gyda hyn er mwyn cychwyn ar ei swydd yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth.** Rhoddodd ddarlun clir iawn i ni yn rhifyn diwetha' 'Llygad y Dydd' sut oedd pethau yn yr Eidal, ac efallai ein bod ninnau yn deall yn well erbyn hyn gan i glefyd y Coronafirws ddod yn dipyn nes atom ninnau yma. Y newydd da ydi fod Rhys yn iach ac felly cofiwch ei groesawu adre os gwelwch chi o, ac wrth gwrs gwneud hynny o bellter dwy fetr!

Erbyn hyn mae'r Coronafirws, neu COVID-19, wedi taro 2.5 miliwn o bobl ac wedi lladd dros 178,000. Roedd Yr Eidal yn un o'r gwledydd cyntaf i deimlo effeithiau COVID 19, ond dros yr wythnosau diwethaf mae nifer yr achosion newydd yn yr Eidal i'w gweld yn disgyn (i lawr o tua 6,000 pob diwrnod i o gwmpas 2,500) sydd yn golygu llai o straen ar y gwasanaeth iechyd. Fel canlyniad, mae'r llywodraeth wedi llacio'r rhwystrau mewn rhai ardaloedd, ac wedi caniatáu i rhai siopau agor (ond nid y bariau). Ond tydi hyn ddim yn golygu bod y cwarantîn yn darfod - mae hynny i'w weld yn bell i ffwrdd. Ar hyn o bryd, mae'r cwarantîn i fod i barhau hyd at Fai 3ydd, ond mae'n debyg caiff ei ehangu yn bellach, gyda'r llywodraeth yn llacio'r rhwystrau yn ara deg i osgoi creu sefyllfa lle gallai'r achosion gynyddu unwaith eto.

Mae rhai o'r prifysgolion yn paratoi darlithoedd ar-lein ar gyfer y flwyddyn nesaf ac mae'r ansicrwydd dros yr arholiadau eleni yn parhau yno. Y gobaith yw y bydd nifer yr achosion yn dal i ddisgyn wrth i'r llywodraeth ganiatáu i rai busnesau agor a rhoi caniatâd i rai bobl fynd allan ar amseroedd penodol. Mae Gwledydd Prydain yn parhau i'w gweld ychydig o wythnosau tu ôl i'r Eidal. Mae'n annifyr bod tu mewn tra bod y tywydd yma (ac yng Nghymru am unwaith!) yn braf, ond cawn obeithio bydd pethau yn gwella cyn bo hir.

### Cymorth CORONA
Ardal Dolgellau a Dinas Mawddwy

'Da chi angen cymorth?
Siopa? Nôl presgripsiwn?

Os felly, ffoniwch
un o'r rhifau isod:

07826 708652
07557 659398
07707 806695
07789 968191
07944 403169

neu, ar gyfer Dinas Mawddwy yn unig:
07426 914442

# YSGOL BRO IDRIS: Llythyr y Pennaeth

Annwyl Gyfeillion,

*Helo, sut mae'r hwyl ar bawb? Gobeithio eich bod yn iawn ac yn cadw'n saff.*

*Ysgrifennaf atoch yng nghanol cyfnod anodd a phryderus iawn i bawb ohonom. Wnes i erioed feddwl y byddwn yn bennaeth ysgol ac yn gorfod gweithio o adre ar fy mhen fy hun. Rwy'n sicr yn colli'r plant a'r staff- yn colli eu gweld bob dydd, yn colli eu gwên, eu hiwmor, eu sŵn a'u cwmnïaeth a cholli cyfeillgarwch holl staff yr ysgol. Yn wir rwy'n hiraethu am ddod yn ôl i drefn. Ond rhaid cadw at y rheolau, er mor anodd a phoenus ydynt ar adegau. Mae'n angenrheidiol ein bod yn cadw at y drefn er mwyn i ni gael dychwelyd i normalrwydd pan ddaw'r amser yn iawn.*

*Hoffwn ddiolch o galon i'r holl ddisgyblion sydd yn gweithio yn galed ar dasgau amrywiol ar Google Classroom - daliwch ati a chofiwch fynd allan i wneud gweithgareddau i gadw yn ffit ac yn iach bob dydd.*

*Diolch hefyd i'r holl rieni sydd wedi ymroi gant y gant i helpu eu plant i gario ymlaen gyda'u haddysg - gallaf ddychmygu nad yw'n hawdd iawn cael pawb i weithio, i fod ar dasg ac i gwblhau'r gwaith ond diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth i'r plant.*

*Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r staff – maent hwythau hefyd yn gweithio o adre yn cynllunio, yn anfon ac ymateb i waith yn ddyddiol. Diolch iddynt am ymroi i sialensau amrywiol gen i, er enghraifft, cerdded neu redeg 5k a chyfrannu £5 tuag at Ysbyty Dolgellau i ddangos ein gwerthfawrogiad am yr holl waith caled, diflino y maent yn ei wneud yno bob dydd, bob blwyddyn.*

*Hoffwn longyfarch Griff sydd ym Mlwyddyn 4 yn Rhyd-y-main. Mae o wedi bod wrthi'n brysur yn gwneud dros 70 o hyni byns, ac yna'n eu rhannu o gwmpas y pentref i gasglu arian i GIG. Diolch yn fawr hefyd i Miss Glain Roberts, athrawes Dylunio a Thechnoleg yr ysgol fu wrthi'n brysur yn gwneud 70 gorchudd laser ar gyfer staff GIG lleol. Mae yna sawl gweithgaredd sydd wedi codi calon pawb.*

*Dymunaf gymryd y cyfle yma i gydymdeimlo yn fawr gyda theuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y cyfnod yma ac anfonaf ein cofion cynnes atoch.*

*Yng nghanol y cymylau duon 'ma cofiwn,*
***"Daw eto haul ar fryn."***

*Cofion gorau a chadwch yn saff.*

*Jano Owen*

## Diwrnod olaf Blwyddyn 11

**Daeth y cyhoeddiad fod angen cau'r ysgol yn sydyn iawn a bu'n siom mawr iawn i ddisgyblion Bl 11. Er hynny, cawsant gyfle i ffarwelio mewn steil gyda** chyfle i ysgrifennu ar grysau, derbyn limrig yr un gan Mrs Delyth Medi Jones, a derbyn gwobrau gwirion ar ddiwedd y dydd, wrth i'r staff fynd ati i drefnu Diwrnod Ffarwelio ar eu cyfer mewn ychydig oriau!

Yn ystod y bore olaf hefyd bu Prif Swyddogion yr ysgol yn rhannu papur tŷ bach a sebon i Gartref Henoed Dolgellau.

Dyma ychydig o luniau'r diwrnod.













# Walio a chanu - Cyfweliad Osian Morris

**"Walio a chanu, ond ddim yr un pryd," meddai Osian Morris, Efail Fach, wrth gael ei holi gan Llygad y Dydd yn ddiweddar ynglŷn â'i waith. Mae Osian hefyd yn adnabyddus iawn fel perfformiwr ar lwyfannau lleol ac ar hyd a lled Cymru ac ymhellach. Fis Hydref llynedd, cafodd gyfle i deithio i Golombia, De America i ganu gyda cherddorion eraill o Gymru - profiad anhygoel meddai Osian.** Felly, lle i ddechrau holi'r cymeriad rhadlon yma? Gan mai fel waliwr mae Osian yn ennill ei 'fara menyn' dyma gychwyn y sgwrs efo'r grefft arbenigol y mae Osian wedi ei meithrin ers ei arddegau hwyr.



Ar ôl gadael ysgol aeth Osian i Goleg Glynllifon i astudio cadwraeth a choedwigaeth. Fel rhan o'r cwrs, cafodd leoliad efo contractwr waliau cerrig sych, a darganfod fod y gwaith yn rhoi boddhad iddo. Felly, ar ôl cwblhau cwrs coleg dwy flynedd, penderfynodd fynd i weithio gyda'r contractwr lle gafodd leoliad, a pharhau yno am bum mlynedd. Mentrodd fynd yn hunan gyflogedig pan oedd yn 21 oed. Yr orchwyl gyntaf oedd adeiladu un wal ar y cyd efo waliwr arall. Mae'n rhaid fod y gwaith hwnnw wedi bod yn dderbyniol, oherwydd dydy'r galwadau heb leihau ac mae'n gyson brysur ers y cychwyn ac ar hyn o bryd yn gallu cyflogi tri arall.

Ei ardal waith ydi Meirionnydd yn bennaf, ac mae 'arian Ewrop' wedi galluogi i'r grefft hon fod yn hanfodol er mwyn cadw'r hyn sydd yn rhan o olygfa cefn gwlad i barhau.

'Dysgu ar y job' wnaeth Osian ac mi gymerodd amser i berffeithio ei grefft. Mae'r llygad yn bwysig meddai Osian, er mwyn dewis y garreg iawn bob tro. "Yn debyg i sgwennu geiriau ar gyfer cân - mae'n rhaid i'r gair neu eiriau fod yn 'ffitio' ac mae'n rhaid i'r cerrig 'gloi dros ei gilydd ' - dyna yw'r gyfrinach medd y crefftwr. Mae'r garreg sylfaen yn holl bwysig ac hefyd osgoi y perygl o 'lwgu'r wal'. "Llwgu wal?" gofynnais. "Mae rhaid cael cerrig llai i roi ym mol y wal" oedd yr ateb, gan wneud i rywun sylweddoli fod mwy i'r grefft yma nag sydd yn ymddangos. I ni sydd wedi bod yn ddigon ffodus i gael ein magu mewn ardal lle mae'r waliau cerrig - wel, o fewn tafliad carreg (fach) i ni - mae'n beryg ein bod yn eu cymryd yn ganiataol, ynghyd â'r crefftwaith sydd yn ganolog i'w parhad. Fydd Osian ddim yn mynd â charreg o un ardal -er enghraifft o Arthog, a'i rhoi mewn wal yn Y Brithdir, oherwydd ei ffurf a'i lliw. A phan ddaw ar draws carreg gydag ôl ffosil ynddi, mae hyn yn gyrru'r meddwl a'r dychymyg i ystyried beth tybed oedd ei hoed a'i hanes dros y canrifoedd.

Pa dŵls sydd eu hangen ar gyfer y grefft? Yn syml, trosol, gordd a chaib oedd yr ateb. Dim byd arall?




"Wel, y gallu i feddwl am y dasg wrth weithio" - a dyna ateb crefftwr. Ac mae gweld y dasg wedi ei chwblhau yn rhoi boddhad sydd ar ôl diwrnod caled o waith, yn brofiad braf iawn.


Yn yr un modd mae bod yn gerddor sydd yn cyfansoddi geiriau ac alaw i'w gân, yn rhoi pleser i Osian, a chwmni fel arfer, gan ei fod yn cyd-ganu gydag eraill sy'n rhannu ei ddiddordeb ac yn chwarae offerynnau gwahanol (gitâr yw offeryn Osian). Mae'n canu'n unigol hefyd ond ers ei ugeiniau mae'n ymuno efo criw o gyfeillion gweddol lleol er mwyn diddori eraill, a hwy eu hunain hefyd! Disgrifiad Osian o'r gerddoriaeth mae'n hoff ohoni ydi'r "felan werinol" - sy'n swnio fel croes rhwng canu 'blues' a gwerin, a pham lai? Mae sawl cân werin efo geiriau pruddglwyfus a thôn ddigalon yn rhan o'n traddodiad! Mae wedi perfformio yng Ngwlad y Basg, a Gorllewin Iwerddon ond y pinacl oedd y daith llynedd i Colombia, a alwyd yn daith 'Cân y mynyddoedd'. Roedd yn brofiad cyffrous iawn i Osian a'r lleill yn y band, oedd yn cynnwys Iestyn Tyne a Gwilym Bowen Rhys. Roedd grŵp o Colombia yn perfformio ar y cyd â'r grwp o Gymru. Llwyddodd y criw i ddysgu cân hiraethus mewn Sbaeneg a'i pherfformio mewn ysgol yno. Roedd hynny wedi plesio yn lleol yno wrth gwrs. Mi gafwyd amser i weld dipyn bach ar y wlad a'i phobl, ac er gwaethaf yr hyn a glywir am y peryglon yno, roedd Osian yn pwysleisio mor glên oedd bawb welson nhw, er bod tlodi mawr yn amlwg yn y dinasoedd.

Beth nesa felly i Osian? Y bwriad oedd canu yn y 'Sesiwn Fawr' yn Nolgellau, ac mewn digwyddiad yn Machynlleth. Roedd trefniadau ar y gweill hefyd i'r band y buont yn cydweithio â nhw yn Colombia i ymweld â Chymru ond oherwydd yr amgylchiadau presennol efo'r Covid 19, y perygl yw y bydd yn ofynnol ail drefnu. Yn y cyfamser, walio fydd Osian mae'n bur debyg ac ar ôl gaeaf ddigon gwlyb, gyda lwc caiff fynd ati i walio yn yr haul!



# Llyfrau ac ati Bethan Gwanas

**Wn i ddim amdanoch chi, ond dwi wedi darllen gryn dipyn llai na'r disgwyl dros y cyfnod caeth 'ma. Mae'n anodd canolbwyntio tydi? Mae meddwl am ffyrdd o dalu biliau ar feddwl rhywun hunan-gyflogedig fel fi, ac er y dylwn i fod yn gallu sgwennu, tydw i ddim.** Mi fedra i sgwennu pethau bychain, gweddol fyr fel yr erthygl hon a cholofnau'r Herald Gymraeg (dwi'n gwneud y gwaith hwnnw i gyd am ddim bellach gyda llaw, ers i'r Daily Post gyhoeddi na fyddan nhw'n talu colofnwyr o ddechrau Ebrill ymlaen. Dim digon o bobl yn prynu papurau newydd...) ond mae sgwennu nofel yn rhywbeth cwbl wahanol. Mae hynny'n gofyn am y gallu i ganolbwyntio am gyfnodau hirion yn un peth, ac oherwydd bod ein byd wedi newid cymaint, mae meddwl am sgwennu am gymeriadau sy'n cymdeithasu a chyffwrdd ac ati jest yn...wel, yn anghywir.




Efallai mai dyna pam fod darllen am gymeriadau cyfoes, 'normal' yn anos rŵan. Mi rois i'r gorau i ddarllen nofel Saesneg gyfoes oherwydd ei bod hi'n trio bod yn ddoniol a do'n i ddim yn teimlo fod pethau'n ddoniol o gwbl. Hefyd, ro'n i'n teimlo'n euog bob tro y byddwn i'n cydio yn y llyfr. Ro'n i'n teimlo mwy o bwysau nag erioed i fod "yn gwneud rhywbeth" yn hytrach na mwynhau fy hun. A hynny er bod darllen yn ran o fy ngwaith i, mewn ffordd. Diolch byth am 'Wal' gan Mari Emlyn. Mi lwyddais i gael copi drwy'r post drwy wefan gwales.com am fod Awen Meirion, lle ro'n i wedi archebu copi, wedi cau cyn i'r llyfr gyrraedd y siop. Mae 'na rai siopau llyfrau yn dal i bostio llyfrau, ond ychydig iawn. Mae 'Wal' yn nofel sy'n edrych a theimlo'n wahanol oherwydd ei bod â chlawr caled ac yn fwriadol yn ymdebygu i lyfrau Ladybird ers talwm. Yna tu mewn, mae'n dilyn fformat llyfr sy'n helpu plant i ddysgu darllen:

Dyma Siân.
Dyma'r tŷ.
Dyma Siân
Yn y tŷ.

Wrth i'r nofel fynd rhagddi, mae ffont y geiriau yn mynd yn llai: arwydd o ddatblygiad llythrennedd plentyn, ac yn ara bach, dan ni'n cael ein hudo i fyd Siân. Awdures ydi hi, sydd wedi taro'r 'wal' ac yn cael trafferth sgwennu. Yna, mae storm yn chwalu'r trydan, ac yn y tywyllwch, mae'n hel meddyliau am ei chymydog sydd wedi codi wal fawr hyll rhwng y ddau dŷ; am ei phlentyndod a'r ffaith nad oedd ei rhieni yn gadael iddi chwarae gyda'r plant drws nesa; am hwiangerddi a chaneuon (ambell un nad ydw i wedi eu clywed ers blynyddoedd); am Pan's People; am bell bottoms; hostess trolley, Fanny Cradock a Bara Nimble. Bydd, mi fydd y nofel hon yn mynd â chi'n nôl i'r 1960au a'r 70au.

Yn raddol, datgelir stori Siân a'i theulu yn hyfryd o gynnil a phwyllog. Mae'n nofel glyfar iawn ac mi wnes i ei mwynhau hi'n arw.

Daeth y nofel hon yn agos at y brig yng nghystadleuaeth Y Fedal Ryddiaith, Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019. Dywedodd Mererid Hopwood yn ei beirniadaeth fod 'Wal' yn waith ***"cynnil, meistrolgar a chwbl wreiddiol." "Sinistr o ddiniwed; anghynnes o agos-atoch; arteithiol o ddarllenadwy,"*** meddai Emyr Lewis. Rhiannon Ifans enillodd gyda 'Ingrid' a dwi'n deall pam, ond yn bersonol, mi ges i fwy o fwynhad allan o ddarllen 'Wal.' Does gen i ddim syniad eto be fydd barn gweddill y grŵp darllen, ond dwi'n edrych ymlaen yn arw i weld os ydan ni'n cytuno ai peidio. Dwi bron yn siŵr y bydd y rhai sydd yr un oed â fi wedi mwynhau'r cyfeiriadau at fyd ein plentyndod ni, a dwi'n siŵr y gwnewch chithau hefyd. Ond y busnes ffont mawr ac ati? Ro'n i wedi ei hoffi'n arw ac yn eiddigeddus mod i ddim wedi meddwl am wneud rhywbeth tebyg cyn hyn! Ond tydan ni gyd ddim yn gwirioni'r un fath nacdan?

Y nofel Gymraeg fydda i'n troi ati nesaf ydi 'Pwy ti'n feddwl wyt ti?' gan Eirlys Wyn Jones, gwraig fferm wedi ymddeol, o Chwilog. Cafodd ganmoliaeth uchel yng Nghystadleuaeth Gwobr Goffa Daniel Owen 2018, ac mae'r syniad yn apelio: gwraig ganol oed wnaeth erioed ddewis cwrs ei bywyd – dim ond dewis priodi ffermwr a magu plant, ond yn sydyn, yn sgil ffrae gyda'i chwaer, mae'n gwneud penderfyniad fydd yn newid ei bywyd am byth. Ia, nofel hawdd canolbwyntio arni, gobeithio; dwi wedi clywed canmol iddi ac yn edrych mlaen at ymgolli ynddi yn yr hamog yn yr ardd – heb deimlo'n euog!

## Rhifyn Digidol Llygad y Dydd

**Oherwydd amodau'r cyfnod anodd a rhyfedd sydd yn ein wynebu ar hyn o bryd, ni fu'n bosibl i ni argraffu copi papur o Llygad y Dydd ar gyfer y mis hwn.** Nid yw'n bosib anfon y papur i'w argraffu at Wasg y Lolfa yn ôl ein harfer oherwydd bod yr argraffdy wedi cau am y tro. Serch hynny, mae pwyllgor Llygad y Dydd yn teimlo ei bod yn bwysig dal ati i gyhoeddi'r papur, er bod hynny yn gorfod bod ar ffurf wahanol i'r arfer.

Diolch yn fawr i Gydlynydd Partneriaethau Mentrau Iaith Cymru a Bro 360 am hwyluso gallu defnyddio'r wefan hon.

**Ymddiheurwn i'n darllenwyr arferol na fydd pawb yn medru darllen Llygad y Dydd ar y rhyngrwyd** ond gobeithiwn y byddwn yn gallu argraffu copïau papur unwaith eto yn y dyfodol agos. Yn y cyfamser, diolch am allu defnyddio technoleg i sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddarparu rhifyn o Llygad y Dydd.'

'Shed' –
Jane Morgan
GWALLT, HARDDWCH
A HOLISTICS
35 mlynedd o brofiad
Arbenigo mewn lliwio
Cysylltwch:
07990 503861
moonface131@line.com
Fb: @shedhairbeauty&holistics

Siop negesau leol
EUROSPAR
DOLGELLAU
gan ein teulu ni i'ch teulu chi



# Ein Milltir Sgwâr

**Gyda‘r miliynau yn y dinasoedd mawrion yn ceisio ymdopi yn gorfforol, yn gymdeithasol, ac yn emosiynol gyda‘r cyfyngiadau presennol ar ein rhyddid, mae geiriau cân o gyfnod y 70gau gan Joni Mitchell, sef *“You don’t know what you’ve got till it’s gone”* yn atseinio yn boenus o glir.** Tybed a ydym wedi sylweddoli, fwy nag erioed cymaint yw ein braint o gael byw mewn ardal o Gymru wledig sydd mor hynod a hardd â hon?

Dyma gyfle arbennig felly i wirioneddol werthfawrogi fod Ein Milltir Sgwâr yn fan lle mae’r awyr iachus yn obennydd i’n gwarchod, cân yr adar i’w chlywed yn y mannau tawel a lliwiau’r haf cynnar yn llonni’r galon yn ein bywydau o ddydd i ddydd. Does ryfedd felly fod y rhan yma o Gymru yn rhoi i ni un o’r tirweddau mwyaf eiconig, sef Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae’n wir dweud bod ansawdd cefn gwlad yr hen Sir Feirionnydd yn cynnig nid yn unig gyfleoedd gwych i ymddatod a mwynhau, ond yn ogystal i herio ein hysbrydoliaeth personol a diwylliannol. Ni fu erioed amser mor addas a phwysig i gydnabod y manteision mae ein tirweddau yn cynnig i ni ar gyfer llesiant personol a llês ein cenedl.



Efallai ein bod weithiau yn teimlo - a hyd yn oed yn poeni - fod Cymru wledig yn cael ei anghofio a’i diystyru. Y presennol yw amser ‘talu‘n ôl,’ ac mae’n hamgylchedd a’n cymunedau clos heb eu hail.

Felly, y tro nesaf yr ewch i gerdded y llwybrau, arhoswch yn llonydd am ennyd, ac ymdawelu. Mae’n amser i ddefnyddio'r synhwyrau i edrych a gweld, i wrando, teimlo a sawru'r harddwch a grym natur ein gwlad. Mae’r llês a ddaw o’i brofi yn amrhisiadwy.

I’r rhai sy’n gwarchod ‘Ein Milltir Sgwâr,’ y bywyd gwledig a’i draddodiadau neilltuol, a rhyfeddod ein hetifeddiaeth Gymraeg a Chymreig, cyd floeddiwn ein diolch o ben y bryn agosaf.

*Lluniau a thestun: Peter Ogden*



Ydy erthygl Peter Ogden yn eich ysgogi i fynd am dro a cherdded o gwmpas eich ‘milltir sgwâr’ gyda llygaid newydd? Mae’r gwanwyn eleni fel petai wedi bod yn harddach nag erioed - neu ai ni sy’n ei werthfawrogi’n fwy oherwydd y cyfyngiadau sydd arnom tybed? Os ydych chi'n abl ac yn ddigon ffodus i allu mynd am dro, beth am dynnu lluniau (ffotograffau) dewis y gorau, a’i anfon at Llygad y Dydd? Gallwn wedyn ei gynnwys yn y rhifyn nesaf fel cofnod o’r gwanwyn hafaidd ‘hir felyn tesog’ rydym yn ei brofi. Gall y ffotograffau roi pleser hefyd i’r rhai sydd ddim yn gallu mentro allan eu hunain.

Wrth gyhoeddi’r rhifyn hwn ni allwn gadarnhau ai rhifyn digidol neu rifyn print fydd y rhifyn nesaf oherwydd y cyfyngiadau presennol.

Anfonwch eich ffotograff at y tîm golygyddol (manylion ar tud. 2) erbyn Mai 11. Sicrhewch mai ffotograff sydd yn eiddo i chi ydy o. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ffotograffau. Pwy a ŵyr, efallai bydd gwobr fechan am eich ymdrech!



## RHYD-Y-MAIN

Yn anffodus, oherwydd y Coronafeirws, ni chynhaliwyd cyfarfodydd yn y neuadd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Bu'n gyfnod o ymbellhau cymdeithasol ac mae'n chwith peidio â gweld ein gilydd i roi'r byd yn ei le. Cadwch yn saff – daw haul ar fryn maes o law.

### Rhagor o Gynnyrch Buddugol y Cyfarfod Bach

Yn ôl yr addewid a roddwyd yn y rhifyn diwethaf, dyma gynnwys rhagor o gyfansoddiadau buddugol y Cyfarfod Bach a gynhaliwyd ddiwedd mis Chwefror. Y tro hwn, mae'r cynnyrch yn dod o'r un stabl deuluol a diolchir i Iwan Bryn James, Aberystwyth am gefnogi'r cyfarfod bach bob blwyddyn. Gobeithio y bydd yr isod yn dod â gwên i'ch wynebau.

• Limrig

Yn gyntaf, roedd:

*Fe welais ryfeddod rhyw noson*
*Wrth grwydro ar lan afon Eiddon.*
*Yn noeth yn y dŵr*
*Roedd Rhianwen dwi'n siŵr*
*Yn rhwbio ei gŵr gyda sebon.*
*'Dim dŵr yn tŷ' (Iwan Bryn)*

Yn dynn wrth ei sodlau, roedd tad Iwan, sef John Glynmor James gyda:

*Fe welais ryfeddod rhyw noson*
*Wrth grwydro ar lan afon Eiddon –*
*Ac yno roedd Llew,*
*Er gwaethaf y rhew,*
*Yn nofio yn noeth fel sealion.*

• Englyn Digri

Yn fuddugol:

**Boris**

*Adyn o brif weinidog, - Eton Mess,*
*Hit 'n miss celwyddog,*
*Mwy o warth na J. Rees-Mogg;*
*Hen fwli llac ei falog.*

*Guto (Iwan Bryn)*

Yn ail, roedd aelod arall o'r teulu, sef Ieuan James, Dolgellau:

**Boris**

*Un od yw ein gwarchodyn - un oriog*
*A'i eiriau'n ddiderfyn,*
*Ond fe wnaeth pan ddaeth yn ddyn*
*Feistar ar Mistar Mostyn.*

• Englyn

**Feganiaeth**

*Yn iach boed croen pob oenig, - ewch heb borc,*
*Ewch heb beis a selsig,*
*Ewch heb gaws ac ewch heb gig;*
*Ffein iawn yw ffa yn unig.*

*Gwyntog (Iwan Bryn)*


• Telyneg

**Y Gamfa**

*Hawdd dwyn i gof y gamfa*
*Fu'n pontio ffens y coed.*
*Yn fynych dringais drosti*
*Yn ysgafn iawn fy nhroed.*

*Un eithaf bregus ydoedd,*
*Wedi pydru braidd oedd hi,*
*Ond nid oedd hynny'n broblem*
*I bwt o foi fel fi.*

*Bellach mae camfa newydd*
*Gadarn dros ffens y coed,*
*Ond anodd dringo drosti*
*A minnau'n mynd i oed.*



*Ewch chwithau dros eich camfa*
*Sy'n pontio ffens eich coed,*
*Buan y daw y pydredd;*
*Ewch drosti yn ddi-oed.*

*Henwr (Iwan Bryn)*

• Brawddeg o'r gair BRYNRHOSYN (y ddwy gan Iwan Bryn)

1af - Bu reiat yn neuadd Rhyd-y-main oherwydd safon y nionod.

Ail - Beryl regodd yn neuadd Rhyd-y-main oherwydd straen y noson.

### Cydymdeimlo

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth yr annwyl Michael John Jones, Llanfachreth, ar yr 8fed o Ebrill. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i weddw, Nerys, ei fab, John Wyn, ei chwaer a'i frawd-yng-nghyfraith, Evelyn a Grenville Edwards, ei chwaer a'i frawd-yng-nghyfraith, Helen a Bedwyr Williams yn Harlech, Alex Bauld, ynghyd â'r holl gysylltiadau teuluol eraill.

### Clwb Cant y Neuadd

Mis Ionawr : 1. £30 – Rhian Davies; 2 £20 – Ffion a John Edwards; 3. £15 – Peredur Jenkins; 4. £10 – Mona Williams; 5. £5 – L. Worsley

Mis Chwefror: 1. £15 – Wini Owen; 2. £10 – Ron Hargreaves; 3. £5 – Mair Evans

Mis Mawrth: 1. £15 – Catrin Fflur; 2. £10 – Des a Gwenan Richards; 3. £5 – Sally Hughes

## Gronyn o'r Odyn

*Nid disgwyl i'r storm fynd heibio yw bywyd,*
*Bywyd yw dysgu dawnsio yn y glaw.*

*Brawddeg Dewi Jones*

**Mae'r misoedd yn mynd heibio'n gyflym iawn. Dyma hi'n fis Mai eto - mis Pentymor pan fyddai gweision fferm yn newid lle ac yn mynd o un fferm i'r llall i weithio.** Mi fydden nhw'n cytuno am hanner blwyddyn ar Dachwedd y trydydd ar ddeg, a'r un fath ar Fai y trydydd ar ddeg. Byddai'r gweision a'r ffermwyr yn cyfarfod ar ddydd Iau Pentymor fel y'i gelwid. Mi fyddai llawer o ddynion yn newid fferm ac eraill yn aros yn yr un lle.

**Cymydog**

*Geilw rhyw ben neu'i gilydd - yma'n driw*
*O ben draw y mynydd,*
*Ar daith bum milltir bob dydd,*
*Hwn ydyw fy ngwyliedydd.*

*Machraeth*

Mair C Jones

Siop, Hufen iâ,
Papurau, Petrol
a Llygad y Dydd
Cwt Gwyn
ORIAU NEWYDD
Llun - Gwener
07:30yb hyd 1:30yp
Sadwrn a Sul
08:00 hyd 1:00yp
Ffôn: 01341 422828

DYLANWAD
Gwin Wine
Rydym ar gau ond yn cludo o amgylch Dolgellau a phellach i'r gogledd a'r de.
Ffoniwch yn ystod yr oriau canlynol i archebu neu ebostio.
Llun – Gwener 9yb-12prynhawn
Mae'r rhestr win a bwydydd ar ein safle we.
www.dylanwad.co.uk
01341 422870

Têc awe cyri bob nos Fawrth
Têc awe Cinio dydd Sul
FFÔNIWCH I ARCHEBU
SGWÂR PLAS COCH
DOLGELLAU
LL40 1ES
FFÔNIWCH - 01341 422809



# DWYN I GOF gyda Merfyn Wyn Tomos

## John Meyrick Jones (1824-1911)



**Bu i Tŷ Meurig, cartref a fu ym mherchnogaeth Cwmni Abbeyfield ers sawl blwyddyn, gau yn ddiweddar. Cartref ydoedd yn wreiddiol i John Meyrick Jones a oedd yn fasnachwr brethyn lleol llwyddiannus yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.** Ef oedd o leiaf y drydedd genhedlaeth o'i deulu i fod yn rhan o fasnach wlân y dref. Bu ei dad John, a'i daid Hugh Jones o'i flaen yn rhan o'r diwydiant, yn sicr yn ôl i'w anterth yn ystod rhan olaf y ddeunawfed ganrif.

Roedd John Meyrick Jones o genhedlaeth a oedd wedi derbyn addysg, y bleidlais, yn Rhyddfrydwr cadarn o safbwynt gwleidyddiaeth ac yn anghydffurfiwr diysgog o safbwynt ei grefydd. Ac, fel sawl un yn y dref o gefndir cyffelyb, roedd ganddo awydd i wasanaethu ei gymuned. Mabwysiadodd yr enw canol Meyrick fel roedd y busnes yn datblygu ac yn llewyrchu o'r 1860au ymlaen ac wedi iddo symud i fyw i Dŷ Meurig. Roedd yn gweld yr enw canol hwn yn hwb i'w fusnes yn ôl pob tebyg, gan wneud iddo sefyll allan o'r holl John Jonesiaid eraill!

Un o'i lwyddiannau busnes oedd derbyn comisiwn gan y teulu brenhinol i gyflenwi brethyn iddynt. Ym 1871, archebodd Tywysoges Cymru frethyn linsi (cymysgedd o liain a gwlân) ganddo, ac ym 1894, gorchmynnodd y Dywysoges Victoria Melita, wyres i'r Frenhines Victoria ac i Tsar Alexander II o Rwsia, bedair ffrog deithiol yn rhan o'i dillad priodas. Fe wnaeth John Meyrick Jones hefyd daro cyfeillgarwch gyda'r bardd Alfred, yr Arglwydd Tennyson yn ystod ei ymweliad â Chymru, gan wneud siwt bwrpasol iddo o frethyn lleol. Roedd ymysg y rhai cyntaf yng Nghymru i gynnig gwasanaeth postio archebion led led Prydain ac roedd hefyd â dawn arbennig i farchnata fel a welir yn ei hysbysebion mewn papurau newydd yng Nghymru a Lloegr.

Roedd ei wraig Margaret yn chwaer i Edward Griffith o Dŷ Springfield, dilledydd cyfoethog a oedd hefyd yn amlwg ym mywyd cyhoeddus a chrefyddol y dref. Roedd eu mam, Laura Griffith yn anllythrennog, ond eto fe gadwodd Gwesty'r Angel yn llwyddiannus am nifer fawr o flynyddoedd.

Roedd chwaer i Margaret, Catherine, wedi priodi ag Edward Jones, meddyg lleol a oedd hefyd yn amlwg yng ngwleidyddiaeth lleol a sirol, a ddaeth yn gadeirydd cyntaf Cyngor Sir Feirionnydd ym 1889. Dau o'u plant oedd John a Hugh, sef Doctor Johnny a Doctor Hughie, fel y cyfeiriai taid atynt, tra bo mab arall Rowland Guthrie Jones yn gyfreithiwr, gyda'i enw yn parhau yn rhan o deitl y cwmni lleol, Guthrie Jones a Jones. Mae'n ddiddorol sut y profodd grŵp mor fychan i fod mor ddylanwadol yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel roedd newidiadau sylweddol ym maes llywodraeth leol yn ceisio mynd i'r afael ag amryfal broblemau ein trefi.

Roedd gan John Meyrick a Margaret Jones un ferch a briododd â'r Parch. Owen Edwards, mab Penygeulan, Llanuwchllyn a oedd yn gefnder i Syr Owen M Edwards. Bu ei gŵr yn weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd Seisnig yn Llanelli am rai blynyddoedd cyn symud i Gaernarfon, ond bu'n wael ei iechyd. Teithiodd i Awstralia oherwydd y tywydd ffafriol er mwyn ceisio adfer ei iechyd. Fodd bynnag, ar y daith yno bu farw Mary ei wraig, gan adael tri o feibion ifainc. Aeth Owen yn ôl unwaith eto i Melbourne gan ofalu am Eglwys Fethodistaidd Gymraeg yno, gyda'i chwaer yn gofalu amdano. Yn Nolgellau y magwyd y tri bachgen gyda'u taid a nain. John Oswald Edwards oedd yr hynaf. Bu ef yn cadw Modurdy'r Castell yn y dref am flynyddoedd. Gwilym Arthur oedd yn y canol. Bu'n weinidog, yn awdur ac yn bennaeth y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth. Edward Llewellyn oedd yr ieuengaf. Roedd yn ddilledydd yn gweithio gyda Chwmni Morris, Glanglasfor yn y 'Cambrian Establishment' yn y Bermo. John Oswald a fu'n yn byw yn Nhŷ Meurig ar ôl ei daid a nain. Nid ydwyf yn ei gofio ef, ond cofiaf ei howscipar, Maria Edwards a oedd yn ffrindiau gyda Nain ac yn galw'n aml i'w gweld ym Modhyfryd gerllaw, y ddwy o'r un oed ac yn enedigol o Lanuwchllyn.

Cyfrannodd John Meyrick Jones lawer i ddatblygiad y dref, nid yn unig yn economaidd, ond yn ddiwylliannol, crefyddol a chyhoeddus, yn ogystal. Mae ei gartref dal yn sefyll; gresyn fod cyn lleied ar ôl o'r ffatrïoedd a'r pandai ar lannau'r Aran.

# Adnoddau Addysg STORIEL

**Gan fod rhaid addysgu plant o adref yn ystod yr argyfwng Covid-19, mae Storiel yn defnyddio'r adnoddau hanesyddol sydd ganddyn nhw yn yr amgueddfa i greu taflenni gwybodaeth ar gyfer y teulu cyfan.**

Gyda holl adnoddau Storiel tu ôl i ddrysau caeedig am y tro, dyma gyfle gwych sy'n cael ei gynnig i'w mwynhau nhw o adref. Mae cyfres o daflenni gwybodaeth ar gael sy'n addas i blant Cyfnod Allweddol 2 a hŷn, ac maent i gyd ar gael yn ddwyieithog.

Rhai o'r pynciau sy'n cael eu trafod ydi Y Celtiaid, Llechi Cerfiedig a Dogni - ac maent i gyd gyda rhyw fath o gysylltiad i hanes gogledd Cymru. Ceir lluniau addas i gyd fynd gyda phob pwnc.

Meddai'r Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd:

"Mae'n biti fod plant a theuluoedd yn methu allan ar y profiad o ymweld â llefydd fel Storiel i ddysgu pethau newydd gyda'i gilydd yn ystod yr argyfwng hwn. Ond, rwy'n hynod o falch i



*Cleddyf Rhufeinig*

weld eu bod yn llwyddo i gynnig yr addysg yma mewn modd gwahanol i'r arfer.

"Mae'n galonogol iawn i weld fod yr holl leoliadau a busnesau sydd gynnon ni yma yn llwyddo i addasu eu gwasanaethau i alluogi fod pobl Gwynedd a thu hwnt yn dal i gael cyfle i'w mwynhau. Mae pawb yn gwerthfawrogi'r ymdrechion hyn yn arw."

Fe fydd Storiel yn rhoi'r tudalennau diweddaraf i fyny ar eu gwefan ar ôl eu cwblhau- https://www.storiel.cymru/cymru/dysgu/

Fe fydd yr holl arteffactau yma yn Storiel i'w ymweld yn dilyn yr argyfwng Covid-19 ac maent yn croesawu teithiau a thripiau.



# Englynion ar Gerdyn Post

**Dyma bump englyn oedd ar hen gerdyn post y deuthum ar ei draws yn ddiweddar.** Postiwyd y cerdyn yn 1905 i'm nain sef Kate Wyn Jones (Pugh) a oedd yn gweini yn Llundain ar y pryd.

Daeth nain yn ôl i Ddolgellau yn y man, priodi Gruffydd Jones Tŷ'n Llechwedd, Llanymawddwy gan setlo yn Rhes Islwyn yn y Lawnt yn dilyn cyfnod yn Nhonypandy. Bu farw fy nhaid ym mhandemig y ffliw yn 1918 gan adael nain yn wraig weddw ifanc i fagu dau o blant sef Gwyneth a Hugh, fy nhad.

Cyfansoddwyd yr englynion gan 'Ab Hevin Aberdar.' Mae chwaer fy nain, a yrrodd y cerdyn yn nodi efallai y byddai yn hoffi "dipyn o waith Henry Pantyronen. Pwy felly oedd ap Hevin?

Ganwyd ap Hevin neu Henry Lloyd yn Nhyddyn Ifan, Islaw'r Dref yn 1870. Symudodd y teulu i Bantyronen, Cwm Bwlchcoch, sydd rhwng Hafodygroeswen a Choed Croes. Yn dilyn prentisiaeth yng Ngwasg y Dydd symudodd i Aberdâr. Yno bu'n olygydd Y Darian. Yn ddiweddarach symudodd i swyddfa'r Tyst ym Merthyr. Cyhoeddodd nifer fawr o lyfrau ond mae'n debyg y cofir yn bennaf ei fod yn awdur geiriau'r emyn 'I bob un sy'n ffyddlon.'

**Dolgellau**

*"Dol golli'r fydd Dol Gelli – Dae'r a'i llwnc*
*Dw'r i'w lle," proffwydi!*
*Na, gorsedd Hedd yw; ca'dd hi*
*Fynyddoedd yn gefn iddi.*

**Cader Idris**

*Mewn hedd, yn deyr mynyddau, - y Gader*
*Ymgwyd uwch cymylau;*
*Geiriog ben y grugog bau,*
*Ger ei bron plyga'r bryniau.*

**Mynydd Moel**


*Dy wyneb a adwaenaf – uchel fryn,*
*A'th goron, mith garaf:*
*O'th gofio, ochneidio wnaf,*
*O'th weled, y gwlith wylaf.*

**Y Gloch Un**

*Ei sain erys yn arwydd, - glywch chwi iaith*
*Y Gloch Un gyfarwydd?*
*Gyda sêl hi geidw'i swydd;*
*Dei li adsain – "Dyletswydd."*

**Y Gloch Naw**

*Mor bêr drwy'r dwysder dystaw, - ar sain hon*
*Groew undon, yw gwrandaw*
*A gwelir yn llwyr giliaw*
*Weilch yn nos rhag y Gloch Naw.*


Cwrt Plas-yn-Dref, neu Hen Senedd-dy Owen Glyndwr.

DOLGELLAU.
"Dol gollir fydd Dol Gelli,---dae'r a'i llwnc,
Dw'r i'w lle," proffwydi!
Na, gorsedd Hedd yw : ca'dd hi
Fynyddoedd yn gefn iddi.

CADER IDRIS.
Mewn hedd, yn deyrn mynyddau,---y Gader
Ymgwyd uwch cymylau;
Greigiog ben y grugog bau,---
Ger ei bron plyga'r bryniau.

MYNYDD MOEL.
Dy wyneb a adwaenaf,---uchel fryn,
A'th goryn,---mi'th garaf:
O'th gofio, ochneidio wnaf,---
O'th weled, y gwlith wylaf.

Y GLOCH UN.
Ei sain erys yn arwydd,---glywch chwi iaith
Y Gloch Un gyfarwydd?
Gyda sêl hi geidw'i swydd;
Deil i adsain---"Dyledswydd."

Y GLOCH NAW.
Mor bêr, drwy'r dwysder dystaw,---ar sain hon
Groew undon, yw gwrandaw;
A gwelir yn llwyr giliaw
Weilch y nos rhag y Gloch Naw.

Copyright.] AB HEVIN, ABERDAR.

Diddorol ydy'r testunau'r englynion. Mae gen i gof plentyn o'r Gloch Naw. Roedd honno i'w chlywed bob nos pan yn blentyn ond chlywais i erioed am y Gloch Un.

*Ywain Myfyr*

# Medalau'r Rhyfel Byd Cyntaf - gan Dai Sheppard

**"Dwi'n cofio bod yna hen lun (neu lythyr, medal neu dystysgrif) yn nhŷ Nain ers talwm, ond does gen i ddim syniad beth ddigwyddodd iddo."** Faint ohonoch sydd wedi clywed, neu ddweud, rhywbeth tebyg tybed? Ers i mi gyhoeddi dau lyfr ar hanes y bobl o ardal Dolgellau yn y Rhyfel Byd Cyntaf, ychydig flynyddoedd yn ôl, dwi wedi clywed rhywbeth cyffelyb lawer tro wrth sgwrsio efo pobl.

Ychydig wythnosau yn ôl derbyniais neges oddi wrth wraig o Telford oedd wedi prynu un o'r llyfrau am fod ganddi gysylltiadau teuluol â Dolgellau. Mae'n debyg bod Ceri yn chwilio'r we bob hyn a hyn yn y gobaith o ddarganfod medalau yn perthyn i aelodau o'i theulu. Roedd hi wedi dod ar draws medal yn perthyn i rywun arall oedd â'i enw ar Gofeb Ryfel Dolgellau ac yn holi os oeddwn yn gwybod am y teulu. Ei bwriad oedd dychwelyd y fedal i berthynas i'r dyn os oedd hynny'n bosibl.

Medal a ddyfarnwyd i Griffith Griffith, Glanwnion oedd ganddi ac roedd yn holi a oeddwn yn gyfarwydd â'r cyfeiriad neu'r teulu. Wel, fel mae'n digwydd mae Glanwnion y drws nesaf i dŷ mam yn Y Lawnt ac yn dal i fod yn perthyn i aelod o'r teulu oedd yn byw yno gan mlynedd yn ôl. Dyma gysylltu'n syth efo Brian, gor-nai Griffith Griffith, a rhoi manylion cyswllt Ceri iddo. Roedd wrth ei fodd efo'r newydd ac o fewn dyddiau roedd y fedal yn ôl ym meddiant y teulu.

Roedd Griffith Griffith wedi ymuno â'r fyddin yn gynnar yn y rhyfel ym Medi 1914. Dilledydd oedd o ran ei alwedigaeth a bu am gyfnod yn gweithio yn un o siopau mwyaf Llundain yn Oxford Street. Er ei fod yn y fyddin o'r cychwyn cyntaf bron, yn anghyffredin iawn nid aeth dramor tan 1918. Cafodd ei ladd o fewn pythefnos o gyrraedd Ffrainc ar 14 Ebrill yn 32 mlwydd oed.

Lladdwyd brawd iddo, Dafydd, chwe mis ynghynt ar 26 Medi 1917 yn 27 oed. Roedd yntau wedi bwrw prentisiaeth fel dilledydd.

Y tair medal mwyaf cyffredin oedd Seren 1914-15, Medal Ryfel Brydeinig (British War Medal) a'r Fedal Buddugoliaeth (Victory Medal). Bron yn ddieithriad, dyfarnwyd y ddwy gron i bawb a wasanaethodd dramor yn ystod y rhyfel. Roedd y seren ar gyfer rheiny oedd wedi gwasanathu dramor cyn diwedd 1915, hynny ydy rhai oedd wedi mynd i ryfel o'u gwirfodd cyn i wasanaeth milwrol gael ei orfodi (conscripsiwn)ym 1916.

Y ddwy fedal gron ddyfarnwyd i Griffith Griffith a'r fedal efydd – Buddugoliaeth - mae Brian wedi dderbyn gan Ceri. Dyfarnwyd y tair medal i'w frawd Dafydd oherwydd iddo fynd dramor cyn diwedd 1915. Mae'r darganfyddiad wedi ysgogi Brian i geisio darganfod hanes medal arall Griffith a thair medal Dafydd. Dal i chwilio am fedalau John Hugh Evans ac aelodau eraill o'r teulu mae Ceri.

Felly os oes yna rywun yn chwilio am hen gysylltiadau teuluol ac yn cael dim lwc, daliwch ati. Gall pethau ddod i'r golwg o'r cyfeiriad mwyaf annisgwyl, fel mae hanes Brian a Ceri yn ei ddangos.



# Cangen Banc Barclays Dolgellau yn ganmlwydd oed

**Bu dathlu ym Manc Barclays Dolgellau yn ddiweddar ar achlysur nodi canmlwyddiant sefydlu'r gangen yn y dref. Digwyddodd hynny nid ar y safle presennol yn Llys Owain, sef hen safle Modurdy'r Castell a Thafarn y Castell cyn hynny, ond yn London House yng nghanol y Stryd Fawr.** Fe'i hail-enwyd yn Dŷ Meirion ddeng mlynedd ar hugain yn ôl pan brynwyd y safle gan Gyngor Sir Gwynedd er mwyn sefydlu amgueddfa yn adrodd hanes a threftadaeth y Crynwyr lleol.



*Christine Hughes, Rheolwr Amaeth; Delwyn Evans, Maer Dolgellau, Lynsey Jones, Rheolwraig y Gangen; Karen Roberts, Banciwr Hanfodol, Natalie Evans, Banciwr Personal, ynghyd â thri chwsmer Banc Barclays*

Cyd-ddigwyddiad diddorol ydi'r ffaith mai Crynwyr hefyd a sefydlodd y cwmni banc gwreiddiol yn Llundain yn yr ail ganrif ar bymtheg. Cychwynnnwyd y cwmni yn 1690 gan ddau ŵr, John Freame a Thomas Gould mewn adeilad yn Stryd Lombard a enwyd ar ôl benthycwyr ariannol o'r Eidal yn yr Oesoedd Canol. Roedd Freame yn eurych wrth ei waith beunyddiol ac yn ŵr uchel ei barch a dylanwadol ymysg aelodau'r Crynwyr neu Gymdeithas y Cyfeillion. Bu'n glerc i brif Gyfarfodydd Blynyddol y Crynwyr yn Llundain a chyhoeddodd lyfr ar hyfforddiant ysgrythurol a ddefnyddiwyd yn eu hysgolion. Bu hefyd yn ymgyrchu'n llwyddiannus am fwy o hawliau i'r Crynwyr. Eurych neu gof aur ydoedd Thomas Gould yn ogystal, a bu'n benthyca arian i bobl o'r un gred ar gyfer eu busnesau. Yn nyddiau cynnar y Crynwyr doedd dim banciau ar gael, felly byddai Cyfeillion yn helpu ei gilydd yn ariannol yn ôl y galw ac roedd eurychod, yn sgil eu gwaith, mewn sefyllfa dda i allu gwneud hynny.

Yn 1736, cymerodd Joseph, mab John Freame, ei frawd yng nghyfraith, un James Barclay yn bartner yn y busnes. Roedd y busnes erbyn hynny mewn adeilad arall yn yr un stryd gydag arwydd eryr du y tu allan. Bu'r eryr du gyda'i adenydd ar led yn rhan o logo'r cwmni am flynyddoedd, er mai glas yw ei liw erbyn heddiw. Megis gyda thafarnau, y rheswm gwreiddiol am arwyddocâd yr arwyddion hyn oedd er mwyn i bobl adnabod lleoedd arbennig mewn cyfnod pan oedd llythrennedd yn isel.

Yn 1766, gelwid y banc yn Barclay, Bevan a Bening. Roedd y banc yn eithaf cefnog erbyn hyn a bu'n ariannu prosiectau adeiladu megis creu camlesi a chodi phontydd.

Bu cysylltiadau'r banc gydag aelodau o Gymdeithas y Cyfeillion yn sicr o fantais i ddatblygiad y busnes. Bu'n gymorth ariannol er enghraifft, i fasnachwyr o Grynwyr yn y gwladfeydd newydd yn America a'r Caribi, ac yn ariannu cwmnïau penodol fel Cwmni Tir Pennsylvania.




*Tŷ Meirion - safle gwreiddiol y banc*

Yn 1896 ymunodd nifer o fanciau preifat ym Mhrydain i ffurfio Barclay a'i Gwmni Cyf. Ac, yn nechrau'r ugeinfed ganrif, prynodd y Cwmni sawl banc arall yn cynnwys rhai yng Nghymru.



Ceir hysbyseb yn Y Dydd yn Nhachwedd 1919 yn nodi fod gan Ariandy Barclay Cyf., 1400 o ganghennau trwy'r holl wlad gyda bron i 200 erbyn hynny yng Nghymru a changhennau pellach ar fin agor yn Nolgellau, Corwen a Chaergybi.

Roedd yn ddigwyddiad o bwys yn 1920, ar ôl holl dreialon y Rhyfel Mawr, i gael banc arall yn y dref. J T Evans oedd y rheolwr cyntaf (1920-1929) gyda Glyn Ellis Jones yn ei ddilyn o 1929 hyd 1943. Ef oedd y rheolwr a fu'n gwasanaethu'r dref hiraf. Dilynwyd ef gan D S Davies (1943-1954), J T Evans (1954-66), R W Hughes (1966-73), J L Davies (1973-1982), R O Davies (1982-85, a H E Jones, 1985- 94.

Agorais gyfrif gyda'r banc hwn yn y 1960au ac os nad ydi'r cof yn pallu, roedd Beryl Vaughan, Llanerfyl, Powys yn gweithio yno. Mae Beryl yn adnabyddus trwy Gymru bellach yn ymgyrchu'n ddiflino i godi arian ar gyfer nifer o sefydliadau yn cynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Sioe Amaethyddol.

Symudodd y banc i'w adeilad presennol, pwrpasol yn Llys Owain yn 1989. Bu hanes y banc hefyd i raddau yn rhan annatod o stori ein cymunedau, ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae natur bancio wedi newid yn llwyr fel rydym ni a'r banciau yn ymgyfarwyddo â byd sydd o safbwynt technolegol, yn newid yn gyflym. Serch hynny, braf yw cofnodi bod Banc Barclays yn parhau i wasanaethu trigolion y dref a'r fro gyda'i bresenoldeb a hoffwn ddymuno'r gorau i'r gangen wrth symud ymlaen i'r can mlynedd nesaf.

*Merfyn Wyn Tomos*

**J S Jones IFA Ltd**

**Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol**

Ffôn: 01341 423500
Ffacs: 01341 423113
E-bost: jjones7665@aol.com

**6 Rhes Eldon, Sgwâr Eldon,
DOLGELLAU, LL40 1PY**

Mae J S Jones IFA Cyf wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

## DOLGELLAU

**Profedigaethau**

Daeth profedigaeth i ran Menna Roberts yn ystod y mis pan fu farw ei chwaer Olwen Miles, a oedd yn byw yn Crawley, a hynny ond ychydig wythnosau wedi marwolaeth Terry, gŵr Olwen. Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at Menna a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Hefyd anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at Alan ac Alison Woodbridge ym marwolaeth mam Alan sef Greta Woodbridge, ar 25 Mawrth yn ei chartref yn Maidenhead, Berkshire, ar ôl dirywiad sydyn yn ei hiechyd. Roedd hi'n 88 oed ac yn aelod selog o Gapel Methodistaidd St Mark' s ers degawdau. Cynhaliwyd gwasanaeth byr yn y fynwent ar Ddydd Iau Cablyd gyda saith aelod o'r teulu agos yn bresennol. Da oedd clywed a chanu am y gobaith sydd ganddom oherwydd atgyfodiad Crist a gwybod bod Greta yn edrych ymlaen at y bywyd tragwyddol y mae ein Gwaredwr wedi ei addo i bawb sy'n ymddiried ynddo Ef.

Yng nghanol y tristwch daeth newydd da i'r teulu. Mae Alan ac Alison Woodbridge yn ddiolchgar iawn i Dduw am ddau wŷr bach newydd. Gafodd Jude Caleb ei eni ar 1af o Chwefror yn Lerpwl, yn blentyn cyntaf i Joe a Hannah Northover a chafodd Calvin Idris ei eni yng Nghaerdydd i Beci a Richard Andrews ar 29 Chwefror, yn frawd bach i dair o chwiorydd.

**Croeso adref** - Bu David a Tom Rogers adael Dolgellau ar ddechrau mis Ionawr yn cychwyn ar fordaith o gwmpas y byd am dri mis. Dim byd yn anghyffredin yn hynny, medde chi, ond yn yr hinsawdd sydd ohoni, a neb wedi clywed ganddynt, roedd ffrindiau a chydnabod yn dechrau poeni, yn enwedig o glywed ar y newyddion bod amryw o'r llongau mordaith wedi cael achosion o'r haint Covid19. Ond llawenydd yr wythnos hon, gan i'r ddau gyrraedd adref yn saff, wedi gorfod dargyfeirio eu taith, ac wedi bod ar y môr am 30 niwrnod.

Cewch dipyn o hanes y daith yn rhifyn nesaf Llygad y Dydd.

Yn yr hinsawdd yr ydym ynddo ddyddiau hyn, a phrin yn cael gwybod am newyddion y dre, ymddiheurwn os ydym wedi gadael rhywun allan. Os oes gennych unrhyw newyddion cysylltwch gyda Mona Hughes neu Elen Tomos.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â Tecwyn ac Eurwen Owen ym marwolaeth sydyn nith Tecwyn, Carol Titley, yn Crewe ddechrau fis Ebrill. Bu Carol yn nyrs yn Ysbyty Leighton, Crewe am dros ddeng mlynedd ar hugain. Anfonwn ein cofion cywiraf atoch fel teulu.

### Mrs Carys Puw Williams

Gyda thristwch, derbyniwyd y newydd am golli Mrs Carys Puw Williams. Hunodd yn dawel nos Lun y Pasg yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd. Mae'n gadael dwy ferch, Non Gwilym a Sara Gwilym Thomas, Caerdydd a chwaer sef Mrs Beti Puw Richards, Rhyduchaf y Bala. Bydd nifer yn ei chofio yn byw yn y Y Brithdir gyda'i phriod y diweddar Barchedig Meurwyn Williams. Bydd eraill yn ei chofio fel cantores gyda llais canu cyfareddol. Gallai ganu unawdau clasurol a'r ffefryn gyda chynulleidfaoedd oedd 'Blodau ger y drws'. Gwnaeth gyfraniad aruthrol o fawr ym myd cerdd dant drwy ganu, arwain partïon a chorau cerdd dant, darparu gosodiadau a dysgu unigolion, beirniadu ynghyd â chyfrannu i'r Gymdeithas Cerdd Dant.

Athrawes oedd Carys wrth ei galwedigaeth, gan ddysgu mewn sawl ysgol, yn cynnwys yr ysgol gynradd Dolgellau ac Ysgol y Gader (Bro Idris erbyn hyn) a gorffen ei gyrfa yn Ysgol Melin Gruffydd Caerdydd. Ond yn bwysicach na dim, roedd Carys yn gyd weithwraig i'w diweddar ŵr, yn fam, nain, chwaer a modryb arbennig, a chyfeilles gefnogol a thriw i lu ohonom gafodd y fraint o'i hadnabod. Bydd cyfle i ddathlu a diolch am ei bywyd wedi i'r cyfyngiadau presennol gael eu codi. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyr i'r teulu oll yn eu tristwch.

## LLANFACHRETH

### Cydymdeimlo

Gyda thristwch a chwithdod mawr y clywsom am farwolaeth Michael John Jones, yn ei gartref ar 8 Ebrill, 2020. Estynnir cydymdeimlad diffuant iawn â'i weddw, Nerys, ei fab John Wyn ei gymar yntau, Rowena a'u plant, ei chwioryddd Evelyn a Helen a'u gwŷr Grenville a Bedwyr, ynghyd â'r teulu estynedig. Roedd yr annwyl Mike neu MJ yn gymwynaswr a chalon fawr ac yn gymeriad heb ei ail.

### Dathlu Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Liz a Gwynfor Jones ar ddathlu pen-blwydd priodas Aur yn ystod mis Mawrth.

### Gohirio Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth.

Oherwydd yr amgylchiadau presennol, ni chynhelir yr Eisteddfod eleni. Cadwch 12 Mehefin 2021 yn glir - bydd croeso cynnes i bawb bryd hynny!

Cofion cynnes at bawb yn yr ardal a chadwch yn ddiogel.

### Ymgyrch y Diffibrilydd

Daeth galwad ffôn gan Tomos Hughes Gwasanaeth Ambiwlans Cymru nos Iau 26 o Fawrth yn bryderus bod pentref Llanfachreth yn parhau i fod heb diffibrilydd. Teimlai yng nghanol yr hinsawdd echrydus gyda'r coronafirws y dylai'r pentref gael mynediad i diffibrilydd – felly dyma drefnu trwy garedigrwydd y gwasanaeth ambiwlans i leoli diffibrilydd yn y pentref y dydd Gwener canlynol. Er nad yw'r targed ariannol wedi ei gyrraedd hyd yma, bydd modd ail gydio yn hyn wedi'r cyfnod anodd yma fynd heibio. Mae'r diffibrilydd wedi ei leoli wrth ymyl y Neuadd. Lleoliad dros dro yw hwn nes bydd modd ail-gyfarfod i barhau gyda'r trafodaethau am leoliad. Mae'r diffibrilydd yn rhedeg ar fatri ar hyn o bryd, ond bydd yn rhaid iddo gael mynediad at drydan i'w gynnal yn y dyfodol. Bydd hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio maes o law hefyd.

Dwi'n siŵr bod trigolion y pentref yn hynod o ddiolchgar bod y diffibrilydd wedi cyrraedd ac y bydd ar gael iddynt pentref a thrigolion yr ardal gyfagos.

*Nia Wyn Evans*

## DINAS MAWDDWY

### Gwellhad Buan

Gobeithio fod pawb yn cadw'n iach rhag yr aflwydd peth 'ma. Mae amryw o drigolion yr ardal wedi bod i mewn ac allan o'r ysbyty yn ddiweddar, gwellhad buan i chwi i gyd.

### Llongyfarchiadau

Ar nodyn hapusach mae Idris a Gwyneth yn hen-daid a hen-nain unwaith eto. Ganed bachgen bach cyntafanedig i Arwel a Kate yn Aberdyfi…Tedi Arthur. Mwynhewch y magu gan obeithio y cawn ei weld yn fuan. Hefyd llongyfarchiadau i Arwel ar ei swydd newydd o fod yn ddeifar trên, dilyn yn ôl troed ei ddewyrth Aled!

Llongyfarchiadau hefyd i Harri Hughes ar gael swydd efo cwmni Siemens yn Chippenham. Mae Harri'n gobeithio dechrau ar ei swydd fel peiriannydd graffeg yn adran 'Electrical Plant' y cwmni ganol fis Awst.

### Y Pasg ym Maesyfynnon

Nid yr haul yn unig ddaeth allan ar ddydd Sadwrn y Pasg yn Nolgellau. Cafodd trigolion Maesyffynnon (ein stryd ni) fore coffi unigryw, gyda phawb y tu allan i`w tŷ personol, gyda'u cadeiriau, cwpanau a chacen gan un o`r cymdogion a mwynhau orig fach o gwmni a sgwrs.

Roedd digon o bellter rhyngom, hynny am fod yna gymaint o dai haf (gwag) yn ein plith. Felly nid oedd neb yn torri rheolau ond roedd pawb yn falch o dorri`r tawelwch am ychydig. Cymerwch ofal a chadwch yn ddiogel bawb.

*Eluned Williams*

# YR ARDD - gan Shân Lea



**Rydym ni i gyd fel garddwr yn euog o ddefnyddio plastig yn yr ardd ac felly'n euog o gyfrannu tuag at broblem beth i'w wneud gyda fo unwaith y byddwn wedi gorffen ei ddefnyddio!** Os am ddefnyddio llai o blastig wrth arddio, beth am wneud potyn papur ar gyfer eginblanhigyn, megis blodau blynyddol a llysiau? Gallwch wedyn ei blannu'n syth i mewn i'r pridd. Yn y pridd mae'r papur yn pydru'n araf ac mewn amser yn diflannu'n llwyr.

Mae'r dull yma'n defnyddio papur sy'n cael ei ailgylchu beth bynnag. Defnyddiwch bapur heb sglein - mae papur sgleiniog yn cynnwys cemegion sy'n ei wneud yn anaddas.

### Garddio - Pethau i'w gwneud

Mae'n amserol taenu mulch a chwrtaith aml-bwrpas o amgylch planhigion barus fel rhosod a chlematis, yn enwedig os yw'r pridd yn ysgafn ac yn sâl. Peidiwch gadael i'r cwrtaith gyffwrdd y dail, fe all eu llosgi.

Codwch, rhannwch ac ail blanwch eirlysiau fel mae'r dail yn dechrau melynu.

Tociwch Jasmine y gaeaf (Jasminum nudiflorum) wedi iddo orffen blodeuo. Torri cangen yn ôl i lle gwelwch dyfiant cryf newydd a thociwch hyd at 20% o'r hen dyfiant lawr i'r llawr.

Gwnewch 'westy gwenyn' allan o ganseni bambw ar gyfer gwenyn unigol, a'i ddodi mewn man cysgodol i annog pryfetach i ddodwy eu hwyau.

Os oes gennych flew neu wlân rhowch nhw allan i'r adar bach gael eu ddefnyddio ar gyfer adeiladu nythod yn eich gardd.

Ail botiwch blanhigion tŷ os ydynt wedi tyfu'n rhy fawr i'r potiau sydd ganddynt. Does dim ond angen potiau ychydig bach yn fwy na'r un y maent ynddynt eisoes. Bydd y mwyafrif o blanhigion tŷ angen mwy o ddŵr fel mae eu cyfraddd tyfu'n cynyddu.

Diogelwch flodau coed ffrwythau rhag cael eu niweidio gan farrug drwy ddefnyddio gorchudd pwrpasol, os bydd bygythiad rhew.

Ac yn olaf ac yn bwysicach na dim, mwynhewch fod allan yn yr ardd. Gwnewch amser i eistedd a mwynhau ffrwyth eich llafur, mae'n llesol i'r corff ac i'r enaid.

## Annwyl Olygydd,

Roedd Arfon yn ei Olygyddol yn y rhifyn diwethaf o Llygad y Dydd yn sôn am ddefnyddio'r Gymraeg wrth gadw i ffwrdd oddi wrth eraill. Minnau'n cofio am y cerrig a osodiad ar gorneli adeiladau yn oes y ceffyl a throl i gadw olwynion y drol neu'r cert rhag crafu gwaith cerrig ar y gornel. Mae digon ohonynt i'w gweld yng ngogledd Cymru ac ambell un yn Nolgellau. Gelwid y cerrig hyn yn 'cerrig saf draw' neu 'sa draw', term byr bachog i wneud y tro i'r dim. Diolch am y papur...

Tecwyn Owen


CYFREITHWYR SOLICITORS

GUTHRIE JONES & JONES

01341 422 604 dolgellau@guthriejj.co.uk

Yr ydym yn cynnig ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys:

- Trawsgludo preswyl a masnachol
- Ewyllysiau a phrofiant
- Cyfraith tir ac amaethyddiaeth
- Anghydfodau a hawliau cyfreithiol
- Cyfraith gyflogaeth
- Cyfraith teulu, plant ac ysgariad.

# COLOFN NATUR - gan Rhys Gwynn

**Yn y cyfnod anarferol a gofidus hwn, ni bu erioed yn bwysicach i gadw'r ysbryd yn gryf, yn y gobaith y daw diwedd buan ar yr aflwydd sydd wedi chwalu cymaint o fywydau.** I lawer, yng nghanol y caethiwo angenrheidiol, sylwi, a chael amser i sylwi, ar y byd o'n cwmpas yw un o'r pleserau annisgwyl sydd wedi dod â rhywfaint o gydbwysedd i drallodion y dydd. Yn dilyn colled bersonol yr ysgrifennodd Waldo y gerdd dau bennill ddi-deitl sy'n cychwyn 'Nid oes yng ngwreiddyn Bod un wywedigaeth,' ond dyfynnaf y pennill olaf yma am ei fod yn crisialu'r adfywio ddaw wedi adfyd, a'r nerth i wneud hynny'n deillio o wraidd dyfnach daionus, sy'n ein cyd-glymu oll:

*'Yno wedi'r ystorom y cilia'r galon*
*Mae'r byd yn chwâl*
*Ond yn yr isel gaer*
*Mae gwiwer gwynfyd*
*Heno yn gwneud ei gwâl.'*

Ac mae gweld addewid y gwanwyn yn un o brofiadau atgyfnerthol bywyd. Eleni, yn sgil y rheolau, sylwais fwy fyth ar y Milfyw yn y lawnt (Field Woodrush). Hesgen fach ydi hon, un go gyffredin mewn hen laswelltir. Glaswellt y Groglith yw ei enw mewn rhannau o Loegr. Byddai'n cyndeidiau yn dal sylw ar ei hymddangosiad, gan yngan y gwpled:



*'Bydd byw yr eidion du*
*Gwelais y filfyw heddiw'*

Hynny yw, roedd y ddaear wedi cynhesu digon i'r planhigyn hwn ymddangos, ac yn ei sgil i'r borfa gychwyn tyfu i gynnal creadur. Bu cyfnod o wyntoedd miniog o'r gogledd ddwyrain yn atal tyfiant ddechrau'r mis, ac fe ddaeth i'm cof gwpled o awdl orchestol Dic Jones i'r Gwanwyn, â'r bardd yn cymell chwa dynerach o'r gorllewin:

*'Tyrd, awel Erin, i'r tir dolurus*
*I adfer hyder i fro ddolurus'*

Bellach, gwelais yn fy ngardd flodau Carn yr Ebol (Coltsfoot), Gold y Gors (Marsh Marigold) a Blodau Llefrith neu Sannau'r Gog (Cuckoo flower). Daeth yr adar mudol dros nos ar awel gref o'r de, a chlywais fore trannoeth geiliog Gwybedog Brith (Pied flycatcher), deunod y Siff Saff (Chifchaf) a'r chanu byrlymus Telor Penddu (Blackcap) o ddyfnderoedd y coed eirin. Mae'r Gwyddau Canada wedi adfeddiannu pob llyn a phwll yn y fro i nythu arnynt ac mae clywed eu clegar cynhyrfus, yn hytrach na rhu awyrennau rhyfel, yn falm annisgwyl. Mae côr y wig ar ei anterth a'r Fronfraith yn ailadrodd cymalau ei oratorio ddwywaith neu dair ar y tro o frig eithaf ffawydden. Fel disgrifiodd Dic Jones:

*'Mae rhyw gynhyrfiad nad oes mo'i wadu*
*O weld ebrilliad gold y briallu,*
*Neu glacwydd teirblwydd a'i fintai eurblu*
*Yn filain dalog ar flaen ei deulu,*
*Neu'r wennol gynta'n gwanu – drwy'r awel*
*Ar uchel annel a'r gog yn canu.'*

Ac erbyn y gwêl y rhifyn hwn o Lygad y Dydd ei wawr yntau, bydd y gwenoliaid mae'n siŵr wedi dychwelyd i gadw cwmni i'r gog. Mwynhewch arlwy eich gerddi neu'r gwrychoedd a'r coedydd wrth ymestyn y coesau, a chadwch yn obeithiol.






J Eirian Davies fynegodd hyn yn ei gerdd i'r Gaeaf, ond mae'r cysyniad o gylch yn troi yr un mor wir am y cyfnod anodd hwn:

*'Iâ ni ddaw na flino'i ddydd*
*Ni ddaw oerfel na dderfydd.'*

## Rysáit Llinos Rowlands:
# Garlleg Gwyllt



**Yr adeg yma o'r flwyddyn mae digon o arlleg gwyllt yn tyfu yn yr ardal. Efallai gallwch fachu** darn neu ddau tra'n gwneud y mwyaf o'r awr fach sydd gennym pob dydd i wneud ymarfer corff!

**Cynhwysion**

*1 Nionyn*
*2 goes Seleri*
*1 Cennin*
*200g Garlleg gwyllt*
*150g Tatws*
*2lt Stoc*
*300ml Hufen/Cream*
*Ychydig o flawd corn i dewychu*
*Halen a Phupur*

Ffrio'r nionyn, seleri a'r cennin yn ofalus.

Ychwanegu'r tatws a halen a phupur.

Ychwanegu stoc a'i fudferwi am 10 munud.

Ychwanegu garlleg gwyllt a mudferwi am 5 munud.

Tollti'r hufen i mewn a thwymo.

Cymysgwch y blawd corn gydag ychydig bach o ddŵr a'i ychwanegu, gan droi yn gyson i'w dewychu.

## Er cof am Tomi Price

I gofio ugain mlynedd ers colli 'nhad, Tomi Price Y Glyn, a fu farw 9fed Mai 2000.

***Yr archoll ddofn o'i golli***
***Nid yw'n llai ym Mai i mi.***

***Gwerfyl***

# DISNEYLAND - trip yr Urdd,
## gan Robat Gwyn Williams



**Roeddwn yn edrych ymlaen yn fawr iawn at gael mynd ar y trip Disney, gyda chriw yr Urdd. Ond roeddwn hefyd yn ofnus rhag ofn i Storm Dennis ddifetha pob dim a'n rhwystro ni rhag cael mynd.** Cafodd amser y trip ei newid o nos Sadwrn i ddydd Sul oherwydd y gwynt a'r glaw mawr. Felly mi es i i'r gwely yn gynnar, ar ôl helpu mam i bacio dillad a gwneud yn siŵr bod yr arian a fy mhasbort gen i yn barod yn fy rucksack.

Codi'n gynnar bore Dydd Sul i gychwyn am y Blaenau; roedd dŵr a changhennau ar y ffordd ym mhobman! Cyrraedd yno erbyn chwech o'r gloch y bore. Mi roedd plant eraill yn cyrraedd bob yn ychydig, pob un gyda'i gês ar olwynion a gobennydd. Dyma'r bws yn dod a rhoddodd pawb eu bagiau i mewn yn saff. Ges i hygs a sws fawr gen Mam, ac ymlaen â ni i gychwyn ein taith. Mi geisiais i gysgu ar y bws, ond roedd hi'n anodd oherwydd sŵn siarad, chwerthin a sŵn y glaw. Roeddem yn cael gwylio ffilmiau ar y bws i basio amser.

Roedd pyllau mawr o ddŵr ar y ffordd i Dover a bron i ni fynd yn sownd! Roedd rhaid i ni stopio ar y ffordd, i'r dreifar bws gael paned ac ymestyn ei goesau, a chyfle i ni gael bwyta ein bocs bwyd. Siwrnai hir a blinedig i Dover. Roeddem yn ciwio i fynd ar y fferi am dri o'r gloch pnawn. Roedd y fferi'n anferth, gyda llefydd bwyta a siopa mawr.

Mi roedd y môr yn arw, ond doeddwn i ddim yn sâl oherwydd y tabledi wnaeth Mam wneud i mi gymryd cyn cychwyn!

Nôl ar y bws â ni, roedd hi'n dywyll unwaith eto, ac i ffwrdd â ni am Paris a chyrraedd y gwesty am ugain munud i unarddeg nos Sul. Waw, roedd y gwesty yn lyfli! Ro'n i'n rhannu stafell gyda Max.

Codi'n gynnar bore wedyn, wedi blino'n racs! Gwisgo a lawr â ni i gael brecwast, cyn cychwyn ar y bws. Cyrraedd Parc Disney am naw o'r gloch, a'r peth cynta nes i weld oedd y castell lliwgar! Ges i lot fawr o hwyl wrth fynd o gwmpas, a thynnu lluniau o'r parade yn mynd trwy'r stryd, mynd ar reids, cael tynnu llun gyda "Rex", a chael siopa. Cawsom ni wylio tân gwyllt fin nos, a dyma'r arddangosfa orau weles i erioed. Yna nôl ar y bws a ffwrdd â ni i'r gwesty.

Ar ôl noson o gwsg, codi'n gynnar unwaith eto a lawr â ni i nôl brecwast, pacio'n bagiau a ffwrdd â ni ar y bws i Stiwdios Walt Disney. Am agoriad llygad! Waw! Fues i ar ambell reid, sef Finding Nemo, Ratatouille, Tower of Terror a rhai eraill.

Roedd siopa yn gwerthu pethau Disney ym mhobman, ac wrth edrych o gwmpas un o'r siopa pwy weles i ond Simon Cowell. Ia Y "Simon Cowell." Mi wnath o ddweud helo wrtha'i!

Cefais lot fawr o hwyl a gwneud llawer iawn o ffrindiau, ond nôl ar y bws roedd rhaid mynd, a chychwyn ein taith i Calais, croesi ar y cwch i Dover a nôl am adra. Cysgais i rywfaint ar y ffordd adra. Mi nes i yrru neges i Mam ar Whatsapp, i ddweud pa amser fuasem ni'n cyrraedd nôl yn Blaenau. Roedd mam yno yn aros amdana i pan roedd y bws yn cyrraedd am ddeg o'r gloch y bore. Diolch i Dylan, Gari a phawb arall am edrych ar fy ôl i, ac i ddreifar y bws am ddod â ni adra'n saff.


Cacennau Cil y Coed



**Cacennau at bob achlysur**

Eirian Wyn Thomas

cilycoed1@btinternet.com

01341 422978 / 07951211142

FB - Cacennau Cil y Coed

Cil-y-Coed, Brithdir.

Sgôr hylendid bwyd - 5


# Swyn yn y Sinema: BOMBSHELL

**Fe es i wylio Bombshell yn sinema'r Llusern Hud yn Nhywyn efo fy mam pan oeddwn** yn dod at ddiwedd fy arholiadau ffug eleni ac angen mynd allan o'r tŷ am ychydig oriau. Ffilm ffeministaidd, berffaith i wylio hefo'ch mam ydy hon.

Stori go iawn, bryfoclyd, am dair merch glyfar, uchelgeisiol, gref ac angerddol yn un o rwydweithiau newyddion mwyaf pwerus America, gan ddod yn benawdau eu hunain pan wnaethant beryglu popeth i herio'r dyn a'u gwnaeth yn enwog. Yn syml, mae'r ffilm yn dilyn dechreuad y mudiad "me too" gan ddilyn digwyddiadau yn nghwmni Fox yn America. Rhywbeth a wnaeth fy synnu i'n fawr ydy'r ffaith eu bod wedi defnyddio sefyllfa go iawn. Oherwydd natur y ffilm mi wnes i gymryd yn ganiataol y byddai'n ffuglen wedi ei seilio ar sefyllfaoedd penodol, ond roedd y ffilm yn mynd ar ôl hanes y cyhuddiadau o aflonyddu rhywiol yn erbyn Roger Alies o Newyddion Fox. Dwi'n synnu eu bod nhw wedi cael caniatâd i ddefnyddio enwau iawn y bobl a oedd yn gysylltiedig â'r achos, ac efallai doedd dim angen iddyn nhw wneud hynny.

Rhywbeth hynod effeithiol a ddefnyddiwyd yn y ffilm oedd wedi gwneud i fi ddeall maint y broblem, oedd y sgript, a brawddegau bachog oedd yn peri i mi a gweddill y gynulleidfa ebychu e.e. "these men care more about their reputation than they do about money" a "learn to get along with the boys". Geiriau oedd wedi eu rhoi yn y sgript er mwyn creu argraff, a dyna yn fy marn i maen nhw wedi llwyddo i wneud.

Mae actio rhagorol Margot Robbie yn llwyddo i bortreadu pob merch gref sydd yn gwybod beth mae hi'n ei wneud yn ei maes, yn gallu cael ei defnyddio. Mae'r ffilm yn llwyddo i gael y gynulleidfa i uniaethu hefo hi, sydd yn gwneud i'w phrofiadau fod yn fwy dirdynnol. Er hynny teimlaf nad oed rhywbeth yn taro deuddeg efo fi am y ffilm. Gellid bod wedi mynd i fwy o fanylion am y digwyddiadau, ac efallai rhannu straeon am fwy o unigolion, er mwyn i'r gynulleidfa ddeall maint y broblem. Efallai mai 'angen mwy' yn gyffredinol sydd ei eisiau yn y ffilm, er mwyn creu argraff fwy byth.

Ffilm sydd angen cyhoeddusrwydd ydi hon. Mae angen i bawb ddeall y problemau sy'n cael eu hamlygu ynddi, a deall eu bod yn digwydd yng ngwledydd cyfoethog y byd yn 2020 ac nid yn unig yn broblem sydd yn effeithio ar y gwan neu ar unigolion mewn gwledydd tramor, ond yn effeithio ar bawb.

Sgôr. 4.5 allan o 5.

# Coleg Meirion-Dwyfor - Rona Lewis yn ffarwelio

**Dyma'r tro olaf y byddaf i'n bersonol yn ysgrifennu pwt o newyddion Coleg Meirion-Dwyfor ar gyfer Llygad y Dydd. Ddiwedd Ebrill eleni, yn dilyn gyrfa o ychydig dros 38 mlynedd, byddaf yn ymddeol.**

Hoffwn ddiolch i Iola Rowlands am gydweithio a bod o gymorth wrth ddewis straeon addas ac am sicrhau eu bod yn cyrraedd y golygydd mewn pryd. Wrth ddymuno'n dda i Lygad y Dydd cofiaf mai ym mhapur Y Dydd y gwelais hysbyseb fy swydd, a hynny ym mis Hydref 1981. Dechreuais ar fy ngwaith yn Nolgellau ym mis Ionawr 1982 ond yn fuan iawn wedyn daeth eira mawr ac roeddwn yn hynod falch o fedru prynu nwyddau yn y dref a gwresogydd nwy o siop T H Roberts!

Criw bach iawn ohonom oedd yn y Coleg pan gychwynnais, a ninnau newydd setlo yn dilyn symud o'r adeilad blaenorol, lle mae Llyfrgell y Dref erbyn hyn. Braint oedd cael cychwyn ar fy ngyrfa dan arweiniad y Pennaeth, Keith Jones, person hynod o egwyddorol. Cefais ofal da ac arweinid clir gan fy Mhennaeth Adran sef Rhian James (Parry) ac yn ddiweddarach gan Anna Davies. Braf oedd cael cydweithio gyda staff arbennig iawn Coleg Meirionnydd. Roeddem yn ffrindiau da, a bryd hynny, roedd digon o amser i gynnal cyfarfodydd yn foreol dros baned (a chryn dipyn o dynnu coes!). Cofiaf yn iawn fy nghyfweliad am y swydd, gyda John Tudor a'r holl lywodraethwyr ar y panel! Roedd rhai o'r ohonynt yn edrych braidd yn gysglyd, effaith y platiad cinio o'r Bwyty Hyfforddi mae'n siŵr, ond roedd John yn hollol effro gan fy herio a'm holi'n fanwl.

Yr argraff gyntaf a gefais o'r sefydliad oedd y pwyslais mawr a roddwyd ar sicrhau profiadau gwerthfawr i'r dysgwyr a bod graen ar y gwaith. Roedd cydweithio braf rhyngom ni gyd ar bob lefel. Un o'r staff oedd gyda mi ar y cychwyn, ac sy'n parhau i weithio'n y Coleg yw Heulwen Jones. Mae hi wedi hen fabwysiadu'r ffugenw Sunshine, disgrifiad bendigedig ohoni wrth iddi'n croesawu i'r safle bob bore.

Credaf bod tref Dolgellau yn elwa o gael y Coleg ar garreg drws, y bwrlwm a ddaw yn sgîl ein myfyrwyr a'u cefnogaeth i'r busnesau lleol. Yn ogystal, mae'r ffaith ein bod wedi gallu diogelu dyfodol adeilad hynafol Ysgol Dr Williams am gyfnod yn fraint. Pwy a wŷr beth fyddai hanes y lle erbyn hyn pe na bai'r Coleg yn ei ddefnyddio, datblygwyr wedi codi archfarchnad neu adeiladau na fyddai wedi gweddu i'r ardal o bosib? Rydym ni yn y Coleg wedi profi cydweithio da rhwng trigolion y dref ac yn barhaol ddiolchgar am hynny.

Mae symud ein darpariaeth Adeiladwaith a Pheirianneg i ystâd Ddiwydiannol y Marian Mawr wedi'n galluogi i ddatblygu adnoddau ar gyfer myfyrwyr. Mae'r adran yn llwyddiannus iawn o ran safonau cyrhaeddiad ei myfyrwyr, yn wir y gorau o'r holl golegau, ond hefyd y llwyddiannau parhaus mewn cystadlaethau trwy Gymru ac yng Nghystadlaethau Sgiliau'r Byd. Gwych oedd derbyn y newyddion i un o'n myfyrwyr, Osian Ephriam o'r Ynys, Talsarnau, ennill gwobr Aur trwy Gymru yn y gystadleuaeth Gwaith Saer. Llongyfarchiadau mawr iddo ac i'r staff sy'n ei gefnogi.

Yn ogystal, bu dau o fyfyrwyr yr Adran Sgiliau Byw yn Annibynnol yn llwyddiannus gan dderbyn medalau yng nghystadleuaeth Colegau Cymru. Medal Aur i Jordan Evans am baratoi brecwast a medal Arian i Iolo Thomas am osod bwrdd ar gyfer achlysur arbennig. Daw'r ddau o Benrhyndeudraeth.

Hoffwn ddiolch o waelod calon i chi drigolion yr ardal am fod mor gefnogol i'r Coleg bob amser. Mae busnesau ac unigolion yn cefnogi'r adran SBA yn barhaol ac eraill yn manteisio ar wasanaeth y Salonau Gwallt a Harddwch a Bwyty'r Gader. Mae'r Arddangosfa Gelf yn ddigwyddiad pwysig i ni ac rydym yn ymfalchïo wrth arddangos gwaith ein myfyrwyr i'r cyhoedd; diolch i chi gyd am eich cefnogaeth.

Fe fydd hi'n rhyfedd heb y siwrne ddyddiol i Ddolgellau ac fe fydd yn anodd cau'r bennod hon. Er hynny, braf yw cael gorffen fy ngyrfa yma'n y Coleg a gweld yr un graen ar y gwaith, ein canlyniadau rhagorol ynghyd â brwdfrydedd y staff i sicrhau'r profiadau gorau posib i'r dysgwyr. Mae hi wir yn amser ffarwelio pan mae rhieni rhai o'n myfyrwyr, y rhieni y bûm yn eu dysgu flynyddoedd yn ôl, yn synnu fy mod i'n dal i weithio'n y Coleg!

Pob dymuniad da i holl ddarllenwyr Llygad y Dydd.

*Rona Lewis, Pennaeth Cynorthwyol, Coleg Meirion Dwyfor*

# Diwedd cyfnod AC



*Llun: Llywodraeth Cymru*

**Mae Aelod Cynulliad etholaeth Dwyfor Meirionnydd, yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas wedi dweud na fydd yn sefyll yn etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2021.** Wrth ymateb i'r cwestiwn a oedd wedi penderfynu sefyll yn yr etholiad yn etholaeth Dwyfor Meirionnydd ar raglen Dewi Llwyd ar Fore Sul ar Radio Cymru ar Sul y Pasg, dywedodd:

"Naddo ydy'r ateb swyddogol. Yr ateb answyddogol ydy 'mod i wedi gweld gwerth yn y cyfnod yma o weithio mewn ffordd wahanol. Mae 'na fwy i fod yn ddinesydd da na bod yn wleidydd etholedig am fwy na 40 mlynedd."

Bu'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas yn Aelod Seneddol dros Blaid Cymru yn etholaethau Meirionnydd a Meirionnydd Nant Conwy rhwng 1974 ac 1992 ac yn Aelod Cynulliad ers ei sefydlu yn 1999, yn gyntaf yn etholaeth Meirionnydd Nant Conwy ac ers 2007 yn etholaeth Dwyfor Meirionnydd. Roedd yn arweinydd Plaid Cymru rhwng 1984 ac 1991. Bu'n Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol rhwng 1999 a 2011. Ers 2016 bu'n Aelod Cynulliad Annibynnol, ac fe'i penodwyd yn Weinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon yn Llywodraeth Lafur Cymru yn 2016.

Bu gwleidyddion lleol a chenedlaethol yn ymateb i'r sylwadau hyn. Ar ei chyfrif Trydar dywedodd Liz Saville-Roberts A.S. ei bod yn diolch iddo "am ei wasanaeth wrth gynrychioli cymunedau Dwyfor, Meirionnydd a Nant Conwy fel Aelod Seneddol ac Aelod Cynulliad."

Dywedodd arweinydd Plaid Cymru, Adam Price fod yr Arglwydd Elis-Thomas yn "un o seneddwyr amlycaf a mwyaf amryddawn gwleidyddiaeth Cymru a wnaeth gyfraniad oes i fywyd cyhoeddus. Ysbrydoliaeth cynnar i mi yn bersonol fel Arweinydd y Blaid. Er gwaetha pob siom ers hynny, ga'i ddymuno'r gorau i Dafydd yn ddiffuant wedi'r etholiad."

A dywedodd Mark Drakeford, y Prif Weinidog, ei fod yn "diolch i'r Arglwydd Elis-Thomas am ddegawdau o gyfraniad enfawr at fywyd Cymru. Mae wedi bod yn anrhydedd ei gael yn treulio ei dymor olaf yn y Cynulliad fel aelod mor werthfawr o dîm gweinidogol y llywodraeth."




# Cyfrif Mawr Adar Tir Fferm

**"Mwy o adar gwyllt nag erioed." Dyna sut y disgrifiodd Hedd Pugh yr adar sydd ar ei fferm eidion a defaid yng Nghwm Cywarch, Dinas Mawddwy, yn lansiad Cyfrif Mawr Adar Tir Fferm y DG (BFBC) a gynhaliwyd ar ei fferm ym mis Chwefror.**

Trefnir y cyfrif adar gan Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helfeydd a Bywyd Gwyllt Cymru (GWCT) a'i noddi gan NFU Cymru. Hedd yw Cadeirydd Bwrdd Materion Gwledig NFU Cymru ac mae'n credu bod ei fferm ar ei hennill oherwydd niferoedd yr adar gan iddo gofleidio cynlluniau amgylcheddol Cymru gan ddechrau gyda Tir Cymen yn 1992, ac yna, Tir Gofal a Glastir. Anogodd y rhain ef i greu mwy o goridorau bywyd gwyllt gyda nifer sylweddol o wrychoedd ynghyd â phlannu coed, ffensio dwbl i wrychoedd a nentydd ac ati.

Matt Goodall yw ymgynghorydd GWCT Cymru ac fe ymwelodd â nifer o ffermydd yn ystod mis Chwefror i baratoi ar gyfer menter "gwyddoniaeth y dinesydd" i hyrwyddo beth mae ffermwyr yn ei wneud dros y gaeaf i helpu adar yn ystod yr amser anodd yma sef y 'misoedd llwm' – Rhagfyr i Fai – pan fo cyflenwadau bwyd yn brin ond yn hanfodol i lwyddiant magu adar.

"Rydym angen gwybod beth sy'n llwyddo a pha adar sydd angen mwy o help," meddai Matt, sydd yn sicr mae angen gwarchod yr adar, nid yn unig gyda chynhesrwydd y lleiniau cysgodi, ond bod mae bwydo atodol hefyd yn hanfodol.

"Maent angen pob help posib ac yn aml gall hyn olygu mân newidiadau ar gaeau," meddai, gan ychwanegu fod hoprau porthi yn enghraifft dda o rywbeth sy'n hawdd ei wneud i sicrhau bod bwyd ar gael ar unwaith. Noda hefyd, er bod hyn yn opsiwn yng Nghynllun Glastir, mai isel oedd y nifer a fanteisiodd ar hyn oherwydd diffyg hyrwyddo, yn hytrach na'i fod wedi cael ei annog o ddifrif.

Pwysleisia Glenda Thomas, o Grŵp Ymgynghorol Ffermio a Bywyd Gwyllt, sydd wedi gweithio ar gadwraeth gyda Hedd ers y cynllun Tir Cymen, bod angen i'r cynllun Ffermio/Cadwraeth nesaf gymell ffermwyr i blannu mwy o gnydau gorchudd dros y gaeaf i helpu'r adar a bod mwy o fathau o hadau gwyllt cymysg yn cael eu cynnwys fel bod iechyd adar yn dda cyn y tymor magu.

"Hyd yma nid yw'r cynlluniau amgylcheddol wedi llwyddo gyda hyn, ond mae cyfle nawr i gydnabod ac i wobrwyo ffermwyr am dyfu cnydau sy'n bwysig i adar, trychfilod ac ati pan fo'r cynllun newydd yn cael ei ddylunio."

Cadwodd Hedd at y mathau traddodiadol o wartheg eidion a defaid sy'n gweddu i'r dim i hinsawdd garw ei fferm, ac er mai dim ond 500 troedfedd uwchben lefel y môr y mae'r ffermdy ei hun, mae'r tir yn codi'n sydyn wedyn i 2900 troedfedd.



*Hedd Pugh, Glenda Thomas, aelodau o GWCT ac aelodau o'r British Trust for Ornithology*

Conglfeini'r fferm yw magu gwartheg sugno croes Henffordd a defaid cynefin mynydd Cymreig ar gyfer bridwyr llawr gwlad. Esboniodd Hedd bod hyn yn sgil sydd mewn peryg o ddiflannu yn y genhedlaeth nesaf gan fod ffermwyr yn cael eu hannog i leihau cyfraddau stoc, gan ychwanegu bod pori gwartheg â manteision enfawr i iechyd y pridd ac i fio-amrywiaeth a bydd yn rhaid iddynt fod yn rhan o ddyluniad y cynllun nesaf.

"Rydym yn gweld niferoedd enfawr o adar magu yma, fel y daw ffrwyth yr holl waith plannu a wnaed yma yn ystod y 30 mlynedd diwethaf yn weladwy," meddai Hedd, a dywed bod y gwanwyn yn dod â ffrwydriad o adar mudo, yn cynnwys y gwybedog brith prin, sydd wedi'i annog drwy osod blychau adar. Cred Hedd y daw mwy eto o adar fel y bydd y coridorau bywyd gwyllt lletach yn aeddfedu ac yn dwysau gan ddarparu cynefinoedd cyfoethog i fwy o rywogaethau fwydo.

Mae Llywydd NFU, Minette Batters, yn croesawu'r fenter: "Mae'n gyfle i ffermwyr fod yn falch o'r hyn sydd ganddynt ar eu tir," meddai, "ac ynghyd â chynhyrchu bwyd, heb reolaeth gadarn o'r amgylchedd a gwella cynefinoedd, gwarchod bywyd gwyllt a chefnogi peillwyr a phriddoedd nid oes gennym fusnesau ffermio."

Anogir ffermwyr i gymryd rhan yn y cyfrif adar ac os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn bod yn rhan o hyn y flwyddyn nesaf gellir cael mwy o wybodaeth yn www.bfbc.org.uk neu drwy gysylltu â FWAG Cymru ar 01341 421456.





# FWAG yn canolbwyntio ar brofi pridd ar ffermydd Meirionnydd



*Cyfarfod grwp o ffermwyr i drafod profion pridd ar eu ffermydd. Swyddfa FWAG Cymru, Dolgellau*


**Bu'n dymor andros o brysur i dîm FWAG Cymru wrth i ni geisio sicrhau ein bod yn profi pridd ac ysgrifennu Cynllun Rheoli Maethynnau i'n haelodau sydd yn awyddus i dderbyn y gwasanaeth hwn.** Mae'r cynllun yn werthfawr wrth i ffermwyr fynd ati i drefnu pa faethynnau, yn cynnwys calch, gwrtaith, tail ac yn y blaen mae pob cae yn ei dderbyn. Drwy roi yr union faethynnau mae'r caeau a'r cnydau, yn cynnwys glaswellt, eu hangen, mae'r ffermwyr yn gallu sicrhau nad ydynt yn gwastraffu gwrtaith ac yn y blaen, ac yn lleihau unrhyw bosibilrwydd gollwng maethynnau i nentydd ac afonydd, er mwyn cadw ansawdd dŵr da.



Rydym yn ffodus ar hyn o bryd fod y Llywodraeth, drwy Cyswllt Ffermio, yn ariannu'r gwaith hwn. Os ydym yn gwneud y gwaith i unigolyn, gall 80% o'r costau gael eu talu gan y Llywodraeth, ond os ydym yn trefnu bod grŵp o ffermwyr yn dwad at ei gilydd, gall y Llywodraeth dalu am gostau'r gwaith i gyd. Rhaid i grŵp gynnwys o leiaf tri o ffermwyr, ac fel arfer rydym yn trefnu bod y grwpiau yn cynnwys rhwng tair a chwech o ffermydd.

Rydym yn cynnig profi pridd hyd at 20 o gaeau ar bob fferm ac mae'r gwaith yn cael ei wneud dan arweiniad un o'n tîm sydd â'r cymwysterau addas, sef FACTs, profiad yn y maes cynllunio ar gyfer rheoli maethynnau ac yn achrededig i ymgymryd â'r gwaith hwn gan Cyswllt Ffermio.

Mae'n bwysig iawn cymryd samplau o bridd o bob rhan o'r cae fel bod y sampl terfynol yn cynrychioli'r pridd ar y cae i gyd yn eithaf cywir. Mae'r aelod o'n tîm sy'n codi pridd yn cerdded mewn siap "W" dros y cae, ac yn codi pridd ar hyd pob coes o'r "W" i mewn i fwced,yna cymysgu'r pridd yn dda cyn cymryd sampl ohono, bocsio'r pridd a'i yrru i labordy. Wedi'r dadansoddi yn y labordy, defnyddir y canlyniadau i ysgrifennu Cynllun Rheoli Maethynnau i'r grŵp gydag argymhellion ar gyfer pob cae. Wedi hyn rydym yn trefnu cyfarfod i'r ffermwyr i gyd, a bydd aelod neu aelodau o FWAG Cymru yn arwain y cyfarfod drwy fynd dros adroddaid y grŵp, ateb cwestiynau ac arwain y trafodaethau. Gweler lun o un o'r cyfarfodydd grŵp a gynhaliwyd yn ein swyddfa yn Nolgellau (uchod).



Er mwyn manteisio ar y cyfle yma, mae'n rhaid i ffermwyr fod wedi cofrestru â Cyswllt Ffermio ac wedi mynychu un o'r cyfarfodydd "Ffermio i'r Dyfodol," neu bod ganddynt Gynllun Busnes Fferm. Rydym rwan yn trefnu ein gwaith at ddiwedd yr haf a'r hydref nesaf ac mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb mewn cael profi pridd caeau ei fferm, gysylltu â ni ar 01341 421456. Fel arfer, rydym yn casglu enwau ffermwyr ac wedyn yn trefnu grwpiau o fewn ardaloedd drwy'r sir ac ymhellach.




Eich arbenigwyr lleol

EST. 1905
Walter Lloyd Jones
LAND & ESTATE AGENTS

Sefydlwyd yn 1905, Mae Walter Lloyd Jones yn gwmni teuluol, ac yn asiant annibynol yn ardal Dolgellau ac Abermaw ers 100 mlynedd. Rydym yn cynnig gwasanaeth gonest, cyfeillgar a phroffesiynol ar gyfer prynu, gwerthu, a rheoli eiddo, boed yn breswyl, masnachol neu dir.

Yn ogystal â'n gwasanaeth asiantaeth tai gallwn gynnig ystod o wasanaethau ymgynghorol arbenigol a phroffesiynol. Mae Walter Lloyd Jones yn cael ei reoli gan RICS ac felly yn gymwys i ddarparu a rheoli gwasanaethau eiddo ar eich rhan, all fod yn gymhleth, all achosi straen neu all fod yn gostus.

Wrth gyfuno ein harbenigedd mewn eiddo a gwerthu tir, a chyda'n gwybodaeth â'n dealltwriaeth uniongyrchol o anghenion penodol ein cymuned ffermio leol, gallwn gynnig gwasanaethau penodol a phroffesiynol i gleientau amaethyddol ar draws Canolbarth a Gogledd Cymru.

Am fwy o fanylion ewch i'n gwefan neu, gan ddefnyddio y manylion isod, cysylltwch ag aelod o'n tim.

Dolgellau – 01341 422 278
dolgellau@walterlloydjones.co.uk

Abermaw – 01341 422 278
barmouth@walterlloydjones.co.uk

Gwasanaethau Proffesiynol
agriculture@walterlloydjones.co.uk

Rheoleiddir gan RICS
RICS

YMDDIRIEDIR YNOM YN LLEOL AC AR-LEIN
www.walterlloydjones.co.uk

# Betsi Cadwaladr




**Rydym wedi newid y ffordd y mae gwasanaethau meddygon teulu yn cael eu trefnu yng Ngogledd Cymru i helpu i leihau'r risg o haint gan COVID-19.**

Mae Canolfannau Asesu Lleol wedi cael eu sefydlu i helpu i leihau'r amhariad ar wasanaethau meddygon teulu a gofal cychwynnol. Nid canolfannau profi ydi'r Canolfannau Asesu Lleol. Nid ydynt yn cynnig profion COVID-19, a dim ond drwy apwyntiad y mae modd cael eich gweld.

Dylai cleifion sydd angen manteisio ar driniaeth a gwasanaethau barhau i ffonio eu practis meddyg teulu arferol yn gyntaf er mwyn gofyn am gymorth. Yna, bydd gweithiwr proffesiynol gofal iechyd yn eich ffonio yn ôl er mwyn trafod eich anghenion gofal.

Os nad yw'r cymorth a ofynnir amdano yn ymwneud â COVID-19, efallai y byddwch yn cael gwahoddiad i fynd i'ch meddygfa arferol neu bractis cyfagos arall am gymorth pellach. Os tybir bod gennych COVID-19, efallai y byddwch yn cael eich cyfeirio'n hytrach at un o'r Canolfannau Asesu Lleol a restrir isod:

- *Pwllheli (Ysbyty Bryn Beryl)*
- *Dolgellau (Ysbyty Dolgellau)*

Bydd cleifion yn cael cyfarwyddiadau clir ar beth i'w wneud wrth ddod i apwyntiad mewn Canolfan Asesu Leol er mwyn sicrhau bod pob claf, gofalwr a staff y Ganolfan yn ddiogel.

Mae'r tîm yn y Ganolfan Asesu Leol yn cynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd eisoes yn gweithio yn eich cymuned leol a phractisau meddygon teulu, ac efallai y bydd meddyg teulu neu nyrs o bractis arall yn eich gweld.

Mae Meddygfeydd yn parhau ar agor ledled Gogledd Cymru ac yn cymryd apwyntiadau drwy ymgynghoriadau dros y ffôn. Os oes arnoch angen gweld eich meddyg teulu neu gael gofal, ffoniwch eich meddygfa fel arfer i gael cymorth.

## Uned Mân Anafiadau

**Mae Unedau Mân Anafiadau ar gyfer anafiadau llai difrifol. Nid oes angen apwyntiad, ac fel arfer, gallant gynnig amseroedd aros byrrach o lawer na'n prif adrannau achosion brys sy'n gorfod blaenoriaethu'r cleifion sydd wedi'u hanafu'n fwy difrifol.** Dyma enghreifftiau o fân anafiadau:

toriadau, brathiadau, streifiadau, rhywbeth yn y llygad, pigiadau pryfaid a mân anafiadau i'r pen

Dysgwch ragor am eich Uned Mân Anafiadau leol drwy ddewis un o'r safleoedd Ysbytai Cymuned canlynol lle mae gwasanaeth Uned Mân Anafiadau ar gael:

Ysbyty Dolgellau, Dolgellau, Gwynedd

Ysbyty Bryn Beryl, Pwllheli, Gwynedd

Ysbyty Alltwen, Tremadog, Gwynedd

Ysbyty Tywyn, Tywyn, Gwynedd

Am ragor o wybodaeth, ewch i:
https://bipbc.gig.cymru/cleifion-ac-ymwelwyr/ble-dylwn-i-fynd1/uned-man-anafiadau/uned-man-anafiadau/

## Gwasanaeth Bydwreigiaeth

**Yn unol â threfniadau llawer ardal yng Ngogledd Cymru mae'r gwasanaeth Bydwreigiaeth Lleol wedi ei symud dros dro o Ysbyty Dolgellau i Ganolfan Dolfeurig.**

**Rebecca Thomson**

MCFHP MAFHP

Aelod Cofrestredig o'r
British Association of Foot Health Professionals

Cefn y Maes, Brithdir,
DOLGELLAU, LL40 2RP

Ffôn: 07976 350538
E-bost: beebeebexter@hotmail.com

Apwyntiadau Clinigol drwy Drefniant

# Syrjeri Caerffynnon

**Mae'r Feddygfa yn dal i fod yn weithredol ar hyn o bryd, ac rydym yn derbyn galwadau ffôn rhwng 8 y bore a 6.30 yr hwyr o ddydd Llun i ddydd Gwener.**

Rydym yn rhagweld am y dyfodol agos mai dim ond apwyntiadau ffôn y byddwn yn eu cynnig gyda'r meddygon, a hynny ar ôl delio â'ch angen meddygol dros y ffôn gyntaf. Gellir hefyd gynnig apwyntiad wyneb yn wyneb drwy gyswllt fideo. Os ydych yn hapus i gael apwyntiad drwy gyswllt fideo, rhowch wybod i'r derbynnydd pan fyddwch yn ffonio. Mae'n rhaid cael ffôn symudol a chysylltiad y we i weithredu hyn.

Ar gyfer cleifion sydd angen dod i'r Feddygfa, rydym yn gofyn i chi ddod at ffenestr gefn y Feddygfa a rhoi gwybod i'r staff eich bod wedi cyrraedd. Ar gyfer cleifion sy'n gorfod dod i mewn i'r Feddygfa ac aros, byddwch yn ymwybodol ofynion ymbellhau cymdeithasol. Peidiwch â chyrraedd yn gynnar, a gwnewch yn siŵr eich bod yn golchi eich dwylo wrth gyrraedd y Feddygfa yn ystafell ymolchi'r cleifion sydd yn ymyl y drws ffrynt.

Mae'r tîm nyrsio yn parhau i gynnig apwyntiad cyfyngedig ar gyfer profion a gwasanaethau hanfodol; gofynnwch i'r derbynnydd am fwy o wybodaeth pan fyddwch yn ffonio.

Bydd ceisiadau apwyntiad brys ar y diwrnod yn cael eu treialu trwy alwad ffôn gan un o'r tîm clinigol.

Rydym ni yma i helpu ac os oes gennych chi unrhyw bryderon, ffoniwch y Feddygfa ar 01341 422 431.

# Y Golofn Farddol

**Aninnau yng nghanol argyfwng na welodd y byd mo'i debyg o fewn cof, mor hawdd yw anobeithio am weld pen draw i hyn oll, mor rhwydd yw digalonni ynghylch beth ddeil y dyfodol i'n plant. Ar ôl gaeaf o wynt a glaw diddiwedd, a'r gwanwyn ar orwel pell fel petai, hawdd oedd gwangalonni cyn i neb hyd yn oed glywed am y pla newydd oedd yn dechrau cerdded ein byd.**

Felly wrth bendroni ynghylch testun y golofn nesaf a chwilio am farddoniaeth i gynnig gobaith ar adeg fel hyn, digwyddais â tharo ar awdl gwbl odidog Dic Jones i'r 'Gwanwyn' a phenderfynu mai hon a fyddai testun colofn mis Ebrill. Mae atgyfodiad bywyd yn gryf drwy'r awdl ac mae'n pendilio rhwng anobaith a gobaith, geni a marw, galar a gorfoledd, hiraeth am bethau a gollwyd a sicrwydd o'u cael drachefn. Wrth ddarllen yr awdl, gallwn uniaethu â newyn ac adfyd y gaeaf a'i gymharu â'r haint ofnadwy sy'n ymgripian drwy'r byd, a chyferbynnu'r dyheu am weld y gaeaf yn mynd heibio a'r gwanwyn yn cyrraedd â'r ysfa am weld yr haint a'i anrhaith dieflig yn marw o'r tir.

Mae'r cwbl wedi'i gyfleu drwy adnabyddiaeth ddofn y bardd o natur a byd amaeth. I egluro rhai o'r geiriau a allai fod yn annelwig i rai, 'Seren' oedd buwch Dic, 'negro'r gerdd' yw'r deryn du, 'clais' yw clawdd pridd, ac fe gofiwch yn y Beibl fod Esau'n newynu ac wedi gwerthu ei hawl fel mab hynaf i'w frawd Jacob, am fowlen o gawl. Ni allaf gynnwys yr awdl i gyd yn y fan hyn, a rhaid ei darllen yn llawn i'w gwerthfawrogi'n llwyr (mae ar gael mewn cyhoeddiadau fel ''Cerddi Dic yr Hendre: Detholiad o Farddoniaeth Dic Jones' (Llandysul: Gomer, 2010, gol. Ceri Wyn Jones)", ond dyma rannau ohoni -

**GWANWYN**

*O anfon, Glamai, dy fwyn golomen*
*Goruwch y dilyw i gyrchu deilen,*
*Tyrd dithau'r wennol yn ôl â'r heulwen*
*I laesu aerwy gaeafol Seren,*
*Tafola dy ffliwt felen – negro'r gerdd,*
*A tharo gyngerdd ar eitha'r gangen.*

*Tyrd, awel Erin, i'r tir dolurus*
*I adfer hyder i fro ddifrodus,*
*Croesed y sianel dy gawod felys*
*A etyl ofid y gwynt dolefus,*
*Yn ei suo croesawus – tawdd yr iâ,*
*Ac ymlid eira'r cymylau dyrys.*

*Pan ddaw eirlaw yr hirlwm*
*Ar sguboriau'r lloriau llwm*
*Mor hir yw'r tymor eira,*
*Mor hwyr yn dyfod mae'r ha.*

Yna daw gobaith am weld y Gwanwyn -

*Ond y mae newid ym min ei awel*
*A lleuad arall ar y llwyd orwel,*
*Fe gwyd y bustych eu pennau'n uchel*
*A phrancio o ffroeni y cyffro anwel,*
*Mae llais rhyw gymell isel – yn dangos*
*Y ffordd i'r rhos ac i ffwrdd o'r rhesel.*

Mae trafferthion y tymor wyna'n ingol iawn yn y penillion canlynol -

*Ym môn y clais gwelais gyrff*
*Ŵyn barugog eu breugyrff.*
*Toll lawdrwm dant y llwydrew,*
*Teganau trist gwynt y rhew.*

*Fe flingaf flew eu hangau*
*A gwisgo'u crwyn am ŵyn iau,*
*I laesu, nes daw'n lasach*
*Eisiau bwyd rhyw Esau bach.*

Yna daw haul ar fryn unwaith eto, a gobaith am weld gorfoledd mewn bywyd -

*Hyd loriau daear daw haul o'r diwedd*
*A bydd llawenydd 'run fath â'r llynedd,*
*Ei thonnog erwau dan wlith yn gorwedd*
*A'r eidionnau yn byw ar eu dannedd,*
*Fe ddaw Mai a gwella'i gwedd, - a chaethion*
*Y du-a-gwynion yn eu digonedd.*

Mae ei ofidiau'n diflannu wrth weld yr ŵyn yn prancio a'r drain yn eu blodau -

*Beth yw gofal y galon – mwy i mi,*
*A'r ŵyn yn heini a'r drain yn wynion?*

Mae'n gorffen drwy gadarnhau bod bywyd yn dragwyddol a'r rhod bob amser yn troi -

*Tra bo cyw i'r ddeuryw'n ail ddeori*
*Ni bydd i ffydd gael ei diffoddi,*
*Bydd gŵr diorffwys yn torri cwysi*
*Ac yn y gleien bydd og yn gloywi,*
*Bydd gwanwyn a bydd geni - 'n dragywydd,*
*A'r glaw o'r mynydd yn treiglo'r meini.*

Diolch i Wasg Gomer ac Ystâd y diweddar Dic Jones am eu caniatâd i ddyfynnu'r detholiad o *Awdl y Gwanwyn* yn y rhifyn hwn.

*Gwerfyl*

# Llyfr newydd i ddathlu'r twf mewn cefnogaeth i annibyniaeth

**Mae Gwasg y Lolfa'n paratoi cyfrol ddwyieithog i drafod a dathlu'r twf mewn cefnogaeth i Annibyniaeth i Gymru.** Bydd y gyfrol yn cynnwys detholiad o straeon gan unigolion sydd wedi tystio i'r twf yma ers Ewros 2016, sydd wedi ymuno â'r ymgyrch yn sgil refferendwm Brexit neu wedi penderfynu yn nyddiau'r Coronavirus mai annibyniaeth i Gymru yw'r unig ffordd ymlaen.

Meddai golygydd y gyfrol, Mari Emlyn: "Byddai'n dda cael straeon o bob cwr o Gymru yn nodi pam eich bod chi wedi dewis cefnogi annibyniaeth i Gymru. Beth oedd y sbardun i chi gefnogi'r ymgyrch? Pam bod angen annibyniaeth? Byddai'n dda hefyd pe gallech anfon lluniau ohonoch chi a'ch teulu/ffrindiau i gyd-fynd â'ch profiad – yn yr Ewros yn 2016, mewn cyfarfodydd canghennau Yes Cymru, ar un o'r gorymdeithiau dros Annibyniaeth, o fewn eich cymuned neu yn eich cartref yn ystod y lockdown."

**Cysylltwch gyda Mari Emlyn i gynnig eich lluniau a'ch straeon: mari.emlyn@btinternet.com. Dyddiad cau derbyn deunydd yw 1 Mehefin, 2020.**




# Dysgwr y Mis: PAUL



**Paul dw i. Dw i'n byw yn Nhywyn.** Mae pobl Cymraeg yn hoffi gwybod o ble dach chi'n dod yn wreiddiol, ond dydy hi ddim yn hawdd i fi ateb y cwestiwn yma: mi ges i 'ngeni yn Fienna, ro'n i'n byw yn Ne Affrica, mi es i i'r ysgol yn Brighton, a dw i wedi byw yn Llundain, Bryste a Dyfnaint. Mi gafodd fy mam i ei geni ym Mae Colwyn, a gwnaeth fy nhad dyfu i fyny yn Troon, yn yr Alban. Felly o ble dw i'n dod yn wreiddiol? Duw a ŵyr!

Gwraig ficer dw i. Dw i'n gwybod, dyn dw i, ond dydy 'gŵr ficer' ddim yn ddoniol. Mae fy ngwraig i'n ficer, a fi sy'n gweithio adre yn cadw tŷ. Ar hyn o bryd, o achos y coronafeirws, rhaid i mi helpu fy mhlant i efo'u gwaith cartref. Mae hynny'n cymryd cryn amser! Mae gen i ddau o blant. Maen nhw hardd a bendigedig, ond dydyn nhw ddim yn ddistaw.


Dw i'n dysgu Cymraeg ers un deg wyth mis. Yn Nhywyn, does dim rhaid i mi ddysgu Cymraeg, ond yn Llanegryn, yn Abergynolwyn – yn y pentrefi bach – mae hi'n dda siarad Cymraeg. Dw i'n hoffi'r iaith. Mae 'nhiwtor i yn dda iawn. Ond mae'r plant yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol, a rhaid i mi ddallt be sy'n cael ei ddweud!

Fy hoff frawddeg Gymraeg i ydy: ***'Dw i ddim yn dallt.'*** Dw i'n dweud hynna bob amser!

***Dyma gyfle i bobl yr ardal ddod i nabod rhai o'r dysgwyr sy'n gwneud eu gorau glas i ddysgu Cymraeg. Cofiwch sgwrsio efo nhw yn Gymraeg o hyn ymlaen – maen nhw angen ymarfer!***

Bydd y rhifyn nesaf ar gael ar

## Fai 28

Cinio dydd Sul
12.00 tan 2.00
01341 422858
Enillydd Bwyty'r Flwyddyn 2018 yn gyfangwbl - Gwobrau Lletygarwch Cymru
Tafarn y flwyddyn 2017 ac ail yn 2018 - Camra

"Siop Coffi T.H."

Awyrgylch gartrefol a bwyd da.
"Y gorau o bell ffordd. Y siop goffi fwyaf cyfeillgar a chroesawgar. Gallwch chi bob amser sgwrsio â'r staff ac mae'r coffi yn flasus, ac mae'n sicr yn rhoi hwb i'ch diwrnod"
Stryd Glyndwr, Dolgellau
01341 423573

GLYN REES A'I FAB
TREFNWYR ANGLADDAU SEF. 1880
CAPEL GORFFWYS PREIFAT
GWASANAETH ANGLADDAU CYFLAWN
5 RHES ELDON, SGWÂR ELDON, DOLGELLAU, LL40 1PY
FFÔN: 01341 422322
GLASFRYN, STRYD FAWR, Y BERMO, GWYNEDD, LL42 1DS
FFÔN: 01341 280321
TREMYNFA, DINAS MAWDDWY, MACHYNLLETH, POWYS, SY20 9JD
FFÔN: 01650 531240
Gwefan - www.glynreesfunerals.co.uk
Ebost - info@glynreesfunerals.com
National Association of Funeral Directors
Ymwelwch â ni ar Facebook

I. B. Williams a'i Fab Cyf.

Gwaith Cerrig Canolbarth Cymru
LLANBRYNMAIR
SEFYDLWYD 1918
Arbenigwyr mewn gosod cofebau gwenithfaen a llechfaen yng Nghymru
01650 521250
*Hefyd Ystafelloedd Arddangos:*
Dolgellau, Bermo a Machynlleth
*trwy apwyntiad*
www.ibwilliams.co.uk

# Dydd Gweddi'r Byd

Fel arfer, nodir y dydd Gwener cyntaf ym mis Mawrth fel Dydd Gweddi`r Byd o dan y Mudiad Ecwmenaidd Byd Eang a arweinir gan ferched. Eleni, yn Nolgellau, cynhaliwyd y gwasanaeth yn Eglwys Ebeneser.

Merched Cristnogol Zimbabwe oedd yn gyfrifol am baratoi'r gwasanaeth eleni yn dwyn y testun `Cod! Coda dy fatras a cherdda.`



*Liz Griffiths, Alison Roe ac Eluned Williams*


Siop, Caffi, Swyddfa Bost, Papurau, Siop Drwyddedig a Phetrol

a Llygad y Dydd

**Garej**

**Mallwyd**

Ar agor o 7:30yb - 7:00yh

Bwyd da am bris rhesymol

8:00yb—5:00yh

Ffôn: 01650 531210


Braf yw nodi ein bod ni yn Nolgellau yn rhan o don enfawr o weddi o amgylch y byd. Cychwynnodd ar Fawrth 6ed wrth i`r haul godi dros Samoa a gorffennodd yn ôl yn y Môr Tawel wrth i`r haul fachlud dros Samoa Americanaidd.

Cyffrous yw teimlo fod ein criw bach ecwmenaidd ni yn Nolgellau yn rhan o gylch addoliad a gweddi yn cynnwys 120 o wledydd ac ynysoedd ledled y byd.

Cawsom ein herio drwy fyfyrio ar helyntion merched Zimbabwe, ond hefyd cawsom flas ar eu gobaith am y dyfodol. Drwy`r themáu cawsom ein herio i ymrwymo`n hunain i gyd-weithio â hwy i sefydlu cariad, heddwch a chymod yn y byd. Beth bynnag a ddaw i`n rhan drwy ein dealltwriaeth o `Cod, cymer dy fatras a cherdda,` gwyddom mai drwy`r Iesu y cawn ein cymodi â Duw, â ni ein hunain a'n cymuned.

Diolchwn i ferched Zimbabwe am eu hysbrydoliaeth a`u harweiniad i`n herio`i geisio camu ymlaen i greu cariad, cymod a byw mewn heddwch, yn ein teuluoedd, yn y gweithle, yr eglwys, y gymuned a`r genedl.

# Ein Capeli a'n Eglwysi'n addasu yn oes y Corona



Yn y llun mae'r Parchedig Euron Hughes yn paratoi myfyrdodau ar CD ar gyfer yr aelodau hynny sydd heb fynediad i Facebook.

## Oedfaon Gofalaeth Eglwysi Annibynwyr Dinas Mawddwy, Dolgellau a Llanelltyd

Oherwydd pryderon am ledaeniad feirws COVID19 mae pob gwasanaeth yn addoldai'r Ofalaeth wedi ei ohirio am gyfnod amhenodol. Bydd trefniadau amgen yn cael eu gweithredu. Mae adnod y dydd, myfyrdodau a gwasanaethau byr i'w gweld ar dudalen Facebook yr Ofalaeth. Paratowyd myfyrdod ar Gryno Ddisg ar gyfer aelodau sydd heb fynediad i'r dudalen Facebook.

Pan fo angen cymorth ymarferol neu ysbrydol, cysylltwch gyda'r Gweinidog, 01678 540 545.

Ni chynhelir oedfaon yng Nghapel y Tabernacl; Bethesda, Llanymawddwy; Bethsaida, Mallwyd; Ebeneser, Dinas Mawddwy.

## Yr Eglwys Yng Nghymru – Ardal Weinidogaeth Bro Cymer

Oherwydd y Coronafeirws, mae pob addoliad cyhoeddus yma ac yng ngweddill yr Eglwys yng Nghymru wedi'i atal am y tro a'n hadeiladau eglwys ar glo, gwaetha'r modd. Ond mae Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist yn dal ar agor, achos mae o wedi atgyfodi, mae o'n fyw ac mae o gyda ni heddiw, lle bynnag rydyn ni! Cewch chi ymuno â ni i'w addoli ac i wrando ar ei air trwy ein tudalen Facebook 'Bro Cymer – Eglwysi / Churches' neu @brocymerdolgellau.

***Atgyfododd Crist! Atgyfododd yn wir -Alelwia!***

Y Parch Tim Webb

Ficer ac Arweinydd Tîm,
Ardal Weinidogaeth Bro Cymer

***Ni chynhelir oedfon chwaith yn y canlynol- Capel Salem, Dolgellau. Capel Ebeneser, Dolgellau. Capel Rhyd-y-main. Capel yr Annibynwyr, Brithdir.***

Deunydd at y rhifyn nesaf erbyn

Mai 11

Diolch!


**Siop-y-Cymro Dolgellau**

PAPURAU NEWYDD, PAPUR YSGRIFENNU MELYSION

Yn awr yn gwerthu llyfrau Cymraeg

# Fy Ymweliad â Rwanda (Rhan 2) - gan Y Diacon Stephen Roe

**Mewn rhifyn blaenorol o Llygad y Dydd ymddangosodd rhan gyntaf adroddiad am sgwrs Y Diacon Stephen Roe yn Y Gymdeithas, yn rannu hanes ei daith i Rwanda yn ystod Haf 2019. Dyma ail ran yr adroddiad.**



## Addysg

Enwir Ysgol Uwchradd Frank Adamson ar ôl y cenhadwr Methodistaidd cyntaf yn Rwanda, ac mae rhan fwyaf y plant yn ddisgyblion preswyl. Roedd pob ysgol yng nghanol tymor arholiadau pan ymwelsom ni â nhw, a doedd hi ddim yn bosibl gweld gwersi arferol felly. Yn anffodus, dinistriwyd ystafell gysgu'r merched mewn tân yn gynharach eleni, ac ar hyn o bryd mae'r merched yn gorfod cysgu mewn ystafell fach gyfyng, ond roedden ni'n falch o glywed bod yr ystafell gysgu yn cael ei hadnewyddu gyda chymorth gan yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain. Mae'n amlwg bod rhoi cyfle am addysg yn flaenoriaeth i rieni Rwanda, ac mae nifer o'r rhai y gwnaethon ni eu cyfarfod yn gwneud aberthau mawr er mwyn galluogi i'w plant fynd i ysgol neu brifysgol. Ariennir y polytechnig yn breifat yn bennaf trwy ffioedd y myfyrwyr, ac mae'n arbenigo newb Gofal Iechyd a Bydwreigiaeth, Busnes ac Economeg, Addysg (hyfforddi athrawon) a Diwinyddiaeth. Cawsom gyfle i wneud cyflwyniad ar Fasnach Deg a Chadw Cyfrifon i rai myfyrwyr yn yr Adran Busnes ac Economeg. Un o'r heriau mawr sydd yn wynebu Rwanda ar hyn o bryd ydy bod y boblogaeth yn weddol ifanc, ac felly gall myfyrwyr sy'n gadael ysgol neu brifysgol ei chael hi'n anodd cael swydd. Gwnaethon ni gwrdd â nifer o bobl sydd yn ceisio sefydlu busnes eu hunain, gan gynnwys siopau bach, arlunydd, a chriw o wragedd a sefydlodd gwmni cydweithredol yn gwneud a gwerthu bagiau o bob math.

Mae'r Eglwys yn Kigali yn rhedeg Canolfan Amizero hefyd, ysgol ar gyfer plant gydag anghenion arbennig. Dydy'r plant hyn ddim yn derbyn llawer o gefnogaeth gan y wlad, ac mae eu rhieni yn eu gweld fel achos cywilydd weithiau, gan eu cadw gartref, i ffwrdd o olwg y cyhoedd. Mae prosiectau fel hyn yn dechrau newid agweddau, er mai braidd yn araf yw hynny. Roedd yn dda gweld bod yr Eglwys yn ymwneud â rhai ymysg y plant mwyaf difreintiedig ac ar gyrion y gymdeithas, yn ein hatgoffa ein bod ni'n darllen yn aml yn yr Efengyl sut y cyfarfu Iesu â sawl esgymun.

## Ffydd ac Addoliad

Mae ffydd yn dal i chwarae rôl ganolog yn Rwanda. Mae pob dydd yn y Mission Guest House, yr ysbyty, y Ganolfan Iechyd a'r polytechnig yn cychwyn efo defosiwn boreol ar gyfer y staff, am tua 7 o'r gloch. Un o'r gwahaniaethau mawr ydy ei bod yn olau rhwng 6 o'r gloch y bore a 6 o'r gloch y nos trwy'r flwyddyn, ac felly dyna pryd mae pawb yn weithgar. Does dim newidiadau tymhorol fel ym Mhrydain, a'r prif wahaniaeth ydy rhwng y tymor sych a'r tymor gwlyb. I fi, sydd yn gweld ffyddlondeb Duw yn newidiadau cyson a dibynadwy y tymhorau, a hyd y dydd a'r nos, mae'n her fawr byw mewn gwlad lle does dim newidiadau tebyg. Cefais gyfle i arwain y defosiwn sawl gwaith, ac roeddwn i'n gallu dangos Llawlyfr Gweddi'r Eglwys Fethodistaidd Brydeinig i bobl Rwanda, gan eu sicrhau ein bod ni'n gweddïo dros yr Eglwys Fethodistaidd Rydd yn Rwanda ar yr wythfed dydd o bob mis, sy'n digwydd bod yr un dydd ac rydyn ni'n cofio'r Eglwys Fethodistaidd yma yng Nghymru. Cefais y fraint hefyd o dderbyn gwahoddiad i bregethu mewn gwasanaethau yn Kibogora, Kigali, a Bigeyo, pentref pell yn y mynyddoedd yn ardal Kibogora, ac roeddwn i'n gallu rhannu ychydig o'm gweinidogaeth ddiaconaidd gyda'r Urdd Ddiaconaidd Fethodistaidd ym Mhrydain. Roedd yr addoliad yn fywiog ac egnïol, a cherddoriaeth yn chwarae rôl bwysig, wedi'i harwain naill ai gan Grŵp Addoli neu gan gorau yn cynnwys aelodau'r gynulleidfa. Ond roedd gweddi yn llai pwysig nag oeddwn i wedi'i ddisgwyl. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar ddarllen y Beibl a myfyrio arno.

## Meddyliau Olaf

Un peth mawr sydd yn aros yn fy nghof ydy'r cwrteisi a charedigrwydd a gawsom gan y rhai wnaethon ni gwrdd â nhw. Dau hanes sy'n dangos hyn i fi. Ymwelais â thref Karembe, ar y ffin rhwng Rwanda a'r Congo. Yn ôl fy arfer, gofynnais i'r Parch Simeon, fy ngwesteiwr, a oedd yn iawn tynnu lluniau. Dywedodd wrthyf ei bod, ond yn anffodus doedd hi ddim. Daeth un o'r swyddogion ar y ffin ataf a gofyn am weld fy nghamera. Yn gwrtais ond yn gadarn, a heb fymryn o fygythiad; wedi'r cwbl dim ond gwneud ei swydd oedd o, gofynnodd i fi ddileu'r lluniau anghyfreithlon. Dro arall, aeth Angela a finnau i ymweld â thref Tyazo, ddim yn bell o Kibogora. Mewn siop fach, prynon ni ddefnydd er mwyn i Angela wneud ffrog ar ôl dod adref. Wrth gwrs, doedd gynnon ni mo'r syniad lleiaf beth oedd pris teg, a buasai wedi bod yn hawdd i berchennog y siop fanteisio arnom. Ond pan ddywedon ni wrth ffrindiau yn ddiweddarach faint oedden ni wedi'i dalu, gwnaethon nhw ein sicrhau bod y pris yn gywir. Rydw i'n diolch i Dduw ac i'r Eglwys felly am y cyfle i ymweld â Rwanda yn ystod fy nghyfnod sabothol, am yr holl bethau newydd rydw i wedi'u gweld a'u profi, ac uwchlaw popeth arall am y croeso cynnes a haelionus a dderbyniais.



# Cyfweliad â Tom Hughes



**Mae Tom, fel y gwyddoch yn rhan allweddol o dîm Rygbi Gogledd Cymu erbyn hyn, ac wedi derbyn y fraint o fod yn gapten am y tymor eleni. Ers iddo gychwyn chwarae i'r rhanbarth yn 2013, bu'n gyfnod llwyddiannus iawn i'r tîm, a Tom yn rhan fawr o'r llwyddiant yna; bellach mae o wedi cynrychioli'r tîm dros 120 o weithiau. Mae ei lwyddiant yn destun balchder mawr i'r Clwb Rygbi yma yn Nolgellau hefyd. Yn ddiweddar cafodd gohebydd Llygad y Dydd gyfle i sgwrsio efo Tom am ei yrfa hyd yn hyn.**

Cychwynnodd Tom chwarae rygbi pan oedd tua 8 neu 9 oed, yn Nolgellau. Un o'r atgofion cyntaf sydd ganddo o chwarae yw yn Rygbi'r Ddraig ar y Marian mewn cystadleuaeth rhwng ysgolion cynradd, yn cynrychioli Ysgol Ieuan Gwynedd, ac Alan Thomas (cyn hyfforddwr i Glwb Dolgellau) yn ei berswadio i i fynd lawr i ymarfer i Ddolgellau.



Trefn diwrnod gêm 'adra' i Tom ydy ychydig o waith ar y ffarm yn y bore, gwneud yn siŵr bod pob dim yn iawn. a gadael i fod ym Mharc Eirias erbyn 1.00pm. Ar gyfer gemau oddi cartref, bydd y tîm yn teithio i lawr i'r de gyda'r nos ar y nos Wener a chael bwyd ar ôl cyrraedd y gwesty. Bore wedyn brecwast, a chicio sodlau tan amser gadael am y man chwarae yw'r drefn cyn y KO am 2:30, a thrip yn ôl i'r gogledd wedyn. Fel arfer bydd Tom adre erbyn tua 9.00 ar y nos Sadwrn.

Holodd ein gohebydd wedyn beth mae Tom yn ei fwyta cyn gêm fawr. Ateb Tom oedd, "Dw i'n cael brecwast reit gynnar o Weetabix a mêl. Yr un peth bob dydd, a thost ac wyau i ddilyn. Dw i'n trio peidio bwyta gormod!"

Dywedodd Tom, "Dw i ddim yn hoffi colli gêm o gwbl. Bydd yna dymer ddrwg iawn fel arfer a chasau delio gyda chwestiynau. Mae ennill gêm yn meddwl lot, yn enwedig yn y Premiership lle mae pob pwynt mor bwysig. Ond dw i ddim yn cael lot o nerfau i fod yn onest."

Yn ôl Tom uchafbwynt ei yrfa gyda RGG hyn yn hyn yw ennill y Cwpan Cenedlaethol yn Stadiwm y Mileniwm yn erbyn Pontypridd a chwarae yn erbyn Cymru a chael cais.

Tips Tom i rai ifanc sydd yn dechrau chwarae i ddilyn yn ôl ei droed yw, "Gweithio'n galed a pheidio bod ofn siarad lot yn ystod gêm. Ffitrwydd ydi'r peth pwysicaf. Mi fyddwch yn chwaraewr/wraig llawer gwell ac mi wnewch chi fwynhau'r gêm lawer mwy."

Diolch Tom a phob lwc gyda dy yrfa rygbi ac edrychwn ymlaen at glywed mwy o dy hanes yn fuan.

*Ar y chwith: Tom Hughes a Bryn Jones yn erbyn Aberafan ar Barc Eirias eleni. Lluniau trwy garedigrwydd RGC.*

# Campau Ieuan Brooks

**Rhag ofn i chi feddwl fod Jack Brooks yn hawlio'r sylw i gyd gyda'i gampau ar y meysydd rasio Enduro, mae ganddo dipyn** o ffordd i fynd i gyrraedd beth mae ei dad, Ieuan, yn ei gyflawni yn y byd campau. Er mai cefnogi Jack yw ei brif weithgaredd a balchder y dyddiau yma, ac mae'n gwneud job arwrol wrth gyflawni hynny, mae Ieuan ei hun yn dipyn o gampwr mewn sawl maes.



*Llun: Doc Ward*

**Motobeics Enduro**

Mae Ieuan yn cymryd rhan yn y gwahanol rasus sydd yna yng nghystadlaethau Enduro WOR yn rheolaidd trwy ardal y gogledd.

Ei ras ddiwethaf oedd yr Enduro heb gerdyn amseru Timecardless ar y 26.01.2020 yn Llandrillo ger y Bala, ei ras gyntaf yn y dosbarth yma, ac fe orffennodd y ras yn llwyddiannus a derbyn tystysgrif canmoliaeth am wneud hynny.



*Llun: S Jones Photography UBA*

**Bocsio**

Mae Ieuan yn gallu troi ei law, neu ei 'ddyrnau', i'r sgwâr bocsio hefyd. Mae ganddo amryw o fuddugoliaethau dan ei felt, yn y pwysau canol Middle Weight. Mae hefyd yn cymryd rhan ymarferol yn yr uned Ymarfer Alpha sydd yn lle i ymarferion o bob maes gan gynnwys Bocsio yn Storfeydd yr Hufenfa, Ffatri Laeth Rhyd-y-main, ar nos Iau ac mae ganddo agwedd arbennig tuag at y gamp.

Ddiwedd y flwyddyn enillodd ornest UBA Universal Boxing Alliance yn Mochras ger Harlech, ei ornest gyntaf ers sbel. Yn anffodus gohirwyd ei ornest yn noson UBA a CBA Crown Boxing Association yn Nghlwb Sosial Saltney ger Caer yn mis Tachwedd.

**Pêl-droed**

Mae Ieuan yn chwarae i'r tîm cyntaf yma yn Nolgellau. Sgoriodd ddwy gôl yn ddiweddar yn erbyn Penparcau yma ar y Marian, a hynny'n ennill y gêm yn erbyn tîm sydd yn un o'r ffefrynnau am y gynghrair eleni. Ieuan oedd Seren y Gêm honno hefyd!



*Ieuan ar y Marian .v. Penparcau llun: Rod Davies*

**Rygbi**

Yn y gorffennol mae Ieuan wedi cynrychioli Tîm Cyntaf Rygbi'r dre, yn safle'r mewnwr, ochr yn ochr â'i frodyr Arron a Leon. Ond mae synnwyr yn dweud na all fod yn yr holl gampau yma ar yr un pryd, ac felly prin yw ei ymddangosiadau ar y meysydd rygbi bellach.

Llongyfarchiadau mawr i Ieuan, a dalier ati!

# Pêl Rwyd - adroddiad gan Rod Davies



Llun Rod Davies

**Wedi tymor llwyddiannus i'r merched yng nghynghreiriau Gwynedd ac Ynys Môn ym Mhenygroes dros fisoedd y gaeaf,** doedd dim seibiant i'r merched wrth iddynt fynd ati i hel arian ar gyfer 'Sports Relief.' Ers rhai blynyddoedd bu'r clwb pêl rwyd yn flaengar iawn yn casglu arian tuag at elusennau sydd yn cynnal ymgyrchoedd codi arian drwy nosweithiau neu ddiwrnodau penodol ar y teledu. Ni fu eleni yn ddim gwahanol, gyda dros hanner cant o bêl rwydwyr a phêl wragedd yn dod at ei gilydd i Ganolfan Hamdden Glan Wnion nos Fawrth y 10 fed o Fawrth 2020. Llwyddwyd i hel £225 tuag at 'Sports Relief.'

Bu i 5 o dimau gystadlu ar y noson gyda thîm iau a thîm hŷn y clwb pêl rwyd yn ogystal â thimau o'r clybiau pêl droed a chriced a thîm gan yr Heddlu lleol yn cymryd rhan hefyd.

# Y Clwb Criced yn datblygu'r adran gynhwysol

**Yn 2019 dechreuodd Clwb Criced Dolgellau adran ar gyfer pobl anabl yr ardal.** Amcan y Clwb yw darparu criced i bawb sydd eisiau chwarae yn ein cymuned; mae'r adran gynhwysol yma yn chwarae ról allweddol wrth i ni geisio gwireddu'r amcan hwn. Gyda chefnogaeth swyddog rygbi'r ardal, Eon Williams, darparodd y Clwb sesiynau criced yn Ysgol Hafod Lon ac adran Sgiliau Byw'n Annibynnol Coleg Meirion-Dwyfor llynedd. Roedd y sesiynau yn llwyddiannus iawn a daeth hyd at 15 o bobl i'r sesiynau a gynhaliwyd yn ystod misoedd yr haf.

Dros y gaeaf, mae'r Clwb wedi bod yn gweithio gyda Chwaraeon Anabledd Cymru er mwyn derbyn achrediad Insport. Caiff yr achrediad hwn ei gyflwyno i glybiau sydd yn darparu sesiynau cynhwysol o safon. Braf oedd clywed yn ddiweddar bod Clwb Criced Dolgellau wedi ennill rhuban glas Insport Chwaraeon Anabledd Cymru.

Unwaith y bydd hi'n ddiogel i wneud hynny bwriad y Clwb yw datblygu'r adran gynhwysol gyda sesiynau mewn ysgolion arbennig lleol a chystadleuaeth pél meddal. Cysylltwch á **clwbcriceddolgellau@gmail.com** os oes gennych chi, neu unrhyw un yr ydych yn ei adnabod sydd ag anabledd, boed yn anabledd corfforol neu'n anabledd dysgu, ddiddordeb mewn cymryd rhan.

Nid yw'r Clwb yn rhedeg unrhyw sesiynau ar hyn o bryd oherwydd y sefyllfa gyda'r Coronafeirws. Mae'r Clwb yn hynod o ddiolchgar i'r gweithwyr allweddol. Wrth gwrs, gobeithiwn bod pawb yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Mae'r Clwb yn parhau i rannu fideos hyfforddi gyda'i aelodau a byddwn yn cynnal cwis rhithiol yn fuan. Cysylltwch á'r Clwb os hoffech dderbyn y fideos neu os hoffech gymryd rhan yn y Cwis. Diolchwn i bwyllgor Llygad y Dydd am lunio'r rhifyn yma yn ystod y cyfnod heriol hwn.

# Cofio pen blwydd 50 y Clwb Rygbi yn 1999

Mae'r amgylchiadau anodd wedi gorfodi ein ffotograffydd ffyddlon a gweithgar, Rod Davies, i chwilio ei archif eithaf eang. Dyma lun o 1999 pan oedd y Clwb Rygbi yn dathlu ei ben blwydd yn 50 oed. Cafwyd amryw o weithgareddau, gan gynnwys cinio mawreddog yng nghwmni Graham Henry, hyfforddwr Cymru ar y pryd.

Yn y llun:Emlyn Roberts Esgairgawr blaenasgellwr, Geraint Jones Ger Lawnt, prop, Nigel Williams Prop Aled Evans Ty'n Celyn bachwr, Ifan Richards Blaenasgellwr, Justin Kelly 2il reng ac yn gorwedd ar y llawr yn dal y 50, Aled Evans Penrhiw.

